



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Papur Gwyn Amaeth (Cymru)

Dyddiad cyhoeddi: 16 Rhagfyr 2020

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23:59 25 Mawrth 2021

Trosolwg

Rydym yn ymgynghori ynghylch y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru ac rydym yn gwahodd sylwadau ynghylch ein cynigion ar gyfer y canlynol:

- Cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol;
- Diwygio rheoleiddio;
- Cymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi yn y dyfodol;
- Rheoli coetiroedd a choedwigaeth;
- Gwellu iechyd a lles anifeiliaid;
- Gwellu gwaith monitro drwy wneud defnydd effeithiol o ddata a thechnoleg o bell.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb yn unrhyw un o'r ffyrdd isod:

Ar-lein

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn

<https://llyw.cymru/bil-amaethyddiaeth-cymru>

Ysgrifennwch aton ni:

Papur Gwyn Amaeth (Cymru)
Yr Is-adran Diwygio Rheoli Tir
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bostiwrch ni yn:

PapurGwynAmaethCymru@llyw.cymru

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Papur Gwyn Amaeth (Cymru)
Yr Is-adran Diwygio Rheoli Tir
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost:

PapurGwynAmaethCymru@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

<https://gov.wales/agriculture-wales-bill>

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Rhagair

Mae penderfyniad y Deyrnas Unedig i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi cael effaith anferth arnom ni i gyd. I Gymru, rhai o'r canlyniadau mwyaf gweladwy o bosibl fydd y newidiadau i ffermio a'r cymorth a roddir i ffermwyr.

Mae olion canrifoedd o ffermio a rheoli coetiroedd yng Nghymru yn amlwg i bawb eu gweld. Mae'n tirweddau'n rhai gwledig eu natur yn bennaf, wedi'u creu gan ffermwyr ac yn un o'r prif resymau pam y mae twristiaeth yn ffynnu mewn llawer ardal. Mae'r diwydiannau hyn wedi cyfrannu'n fawr hefyd at gyfalaf cymdeithasol cymunedau gwledig. Mae ambell fferm wedi bod yn ngofal yr un teulu ers cenedlaethau, gan greu ac atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithas, rhwymo cymunedau a chryfhau'r cymunedau hynny. Mewn llawer rhan o Gymru, mae'r defnydd di-dor o'r Gymraeg gan gymunedau ffermio wedi tynhau'r cwlwm hwnnw.

Mae ffermwyr Cymru, fel ffermwyr eraill yn yr UE, wedi elwa ar ddegawdau o daliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ac ar farchnad sengl sydd wedi'i diogelu gan ffin dariffau allanol. O ganlyniad, mae ffermwyr Cymru wedi gallu cipio a datblygu marchnadoedd yng ngwledydd eraill Ewrop ar gyfer amrywiaeth o gynnyrch. Bydd hyn oll yn newid unwaith y daw cyfnod pontio'r UE i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Pan ddaeth canlyniad y refferendwm yn amlwg, es ati'n gyflym i sefydlu grwpiau rhanddeiliaid i ystyried beth oedd angen ei wneud i sicrhau dyfodol cynaliadwy i amaethyddiaeth yng Nghymru. Hefyd, dechreuon ni weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion polisi ar gyfer cynllun cymorth ar gyfer y dyfodol. Roeddem yn glir o'r dechrau'n deg y dylai'n cynigion ar gyfer cymorth yn y dyfodol fod yn seiliedig ar yr egwyddor o dalu ffermwyr am gynhyrchu nwyddau cyhoeddus. Dros y ddwy flynedd diwethaf, rwyf wedi cyhoeddi dwy ddogfen ymgynghori¹, yn gosod allan ein syniadau ar gyfer polisi a chymorth amaethyddol yn y dyfodol, yn seiliedig ar y cynnig hwn. Fel y gallwch ddeall, roedd gan bobl lawer iawn i'w ddweud amdano. Rwy'n ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ddarllen yr ymgynghoriadau hyn ac i ymateb iddynt.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'n polisiâu. Roedd effaith yr egwyddor yn rhan annatod o fewn ein hymgynghoriadau ac mae'n ganolog i'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn.

A hithau'n gyfnod mor ansicr, mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau o blaid parhad. Ond gyda heriau mawr yn ein hwynebu, rhaid gweithredu nawr â phendantwrwydd i sicrhau y gall ein cymunedau gwledig barhau i ffynnu yn y blynyddoedd i ddod.

Mae gan ffermwyr Cymru le unigryw yn y gymdeithas ac maen nhw'n cael eu cydnabod am eu rhan fel cynhyrchwyr bwyd diogel o ansawdd uchel. Mae angen i ni barhau i gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy ond rhaid iddynt weithredu hefyd i ymateb i argyfwng yr hinsawdd a helpu i wyrdroi'r dirywiad

¹ *Brexit a'n Tir; Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*

yn ein bioamrywiaeth. Gyda'i gilydd, dyma amcanion strategol allweddol y Llywodraeth ar gyfer amaethyddiaeth.

Mae ein fframwaith polisi, Rheoli'n Tir yn Gynaliadwy, yn disgrifio'n syniadau ynghylch sut y dylai'r Llywodraeth a ffermwyr weithio gyda'i gilydd i wireddu'r amcanion hyn. O astudio'r ymatebion i '*Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*', gwelwyd bod mwyafrif yr ymatebion yn cadarnhau mai'r fframwaith polisi hwn yw'r ffordd ymlaen. Rydym felly wedi mabwysiadu'r polisi fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel prif egwyddor ein polisi a'n cymorth ar gyfer y dyfodol, er mwyn i genedlaethau ffermwyr heddiw a'r dyfodol allu cael eu gwobrwyo am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac am gyfrannu at iechyd a lles ein cenedl.

Rwy'n grediniol, ar sail y ddau ymgynghoriad a'r dadansoddiad polisi rydym wedi'u cynnal ers refferendwm yr UE, ei bod yn gwbl bosibl i ffermwyr allu gwireddu'r amcanion hyn, hynny'n bennaf trwy newid eu harferion ffermio. Fy mwriad yw i'r newidiadau gael eu gweld gan ffermwyr fel cyfle yn hytrach nag fel gorchwyl fydd yn cyfyngu ar eu 'rhyddid i ffermio'.

Rwyf am i'r sector amaethyddol yng Nghymru ffynnu. Bydd arloesedd a gwella effeithlonrwydd yn cyfrannu at hynny, fel y bydd y cymorth rydym yn cynnig ei ddarparu i sicrhau'r canlyniadau. Mae'n bwysig cofio nad yw'r un o'r amcanion yn bodoli ar ei ben ei hun – mae'n bosib ffermio'n gynaliadwy a chynhyrchu bwyd, taclo'r newid yn yr hinsawdd ac adfer bioamrywiaeth, i gyd yr un pryd.

Rydym am roi'r cyngor a'r cymorth ariannol angenrheidiol, a diwygio rheoliadau, er mwyn i'r newidiadau allu digwydd ac i gefnogi ffermwyr i barhau i gyflawni'n hamcanion. Ar gyfer busnesau ffermio, rydym yn cynnig un cynllun fydd yn darparu'r holl gyngor a chymorth sydd eu hangen. Cynigir dilyn trywydd ar wahân i ddarparu cymorth ehangach ('y tu hwnt i gât y fferm') i'r gadwyn gyflenwi ac i ddatblygu bwyd-amaeth.

Er mwyn gwireddu'n huchelgais o Gymru 'sero-net', rhaid wrth ymdrech sylweddol ar draws yr economi a chymdeithas gyfan. I'r sector amaethyddol, bydd angen yr un ymdrech a pharodrwydd i newid.

Gall rheoli'r tir yn wahanol er mwyn cynnal ac adfer bioamrywiaeth gan gynhyrchu bwyd olygu dysgu sgiliau newydd i rai ond bydd yn golygu hefyd manteisio ar y sgiliau a'r wybodaeth y mae'r gymuned ffermio eisoes yn meddu arnynt.

Mae'n hanfodol er lles iechyd ein gwlad ein bod yn gwella ansawdd aer a dŵr sydd wedi dirywio oherwydd effeithiau amaethyddiaeth ac yn hynny o beth, rhaid i ffermwyr ddysgu rheoli adnoddau mewn ffordd wahanol yn y dyfodol.

Wrth gwrs, bydd yn rhaid i lawer o sectorau eraill newid hefyd i ni allu gwireddu'n huchelgais gyda'n gilydd ar gyfer cymdeithas Cymru. Ond rhaid i amaeth wneud eu rhan a theg yw i'r Papur Gwyn hwn ganolbwyntio ar yr hyn y disgwyliwn yn ôl am y cymorth a'r gynhaliaeth y byddwn yn eu rhoi.

Mae'r Papur Gwyn hwn a'r gwaith polisi rydym oll wedi bod yn ei wneud yn cynrychioli cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr hyn a allai fod y newid mwyaf ym mholisi amaeth ers degawdau. Mae'n nodi ein bwriadau ar gyfer y ddeddfwriaeth

sylfaenol ac yn gosod y sylfaen ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru). Bydd llawer iawn mwy am y cynllun arfaethedig a materion eraill yn yr is-ddeddfwriaeth a fydd yn dilyn.

Ers cyhoeddi'r ymgynghoriad cyntaf, ac wrth inni ddod i ddeall beth fydd canlyniadau ymadael â'r UE, mae perthynas newydd wedi datblygu rhwng Llywodraeth Cymru a'r rheini sydd â budd mewn rheoli tir. Wrth reswm, does neb yn y berthynas honno yn gwybod yr atebion i gyd i'r problemau dyrys sy'n ein hwynebu. Rydym yn barod i barhau i weithio gyda ffermwyr i wireddu'r amcanion cyffredin rwyf wedi'u nodi. Gyda'n gilydd, trwy gydweithio, gallwn sicrhau dyfodol cynaliadwy i ffermio, ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r cenedlaethau i ddod.



Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig



Crynodeb

- i) Yn ein papurau ymgynghori *Brexit a'n Tir a Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, gwnaethon ni nodi'n huchelgais i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ger bron y Senedd. Bydd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ("y Bil") yn:

"Strategol ei gwmpas, yn creu fframwaith cymorth fydd yn gallu cynnal datblygiad amaethyddiaeth a choedwigaeth yng Nghymru dros y pymtheg i ugain mlynedd nesaf²."

- ii) Rydym yn cynnig rhai egwyddorion bras ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru):

- Rhaid i'w gynigion gefnogi Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Y fframwaith polisi hwn yw ein hymateb i'r fframwaith deddfwriaethol a sefydlwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fe welwch asesiad o'r ffordd y mae ein cynigion yn cwrdd â gofynion y ddwy Ddeddf yn *'Ffermio Cynaliadwy yn ein Tir'*. Yn y dyfodol, Rheoli Tir yn Gynaliadwy fydd prif nod y polisi amaethyddol a'r cymorth a roddir i ffermio yng Nghymru;
- Rhaid iddo gynnwys mesurau fydd yn sicrhau bod gan amaethyddiaeth Cymru ddyfodol cynaliadwy. Mae cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn ganolog i'r dyfodol hwn, ond mae'n golygu hefyd cefnogi newid arferion ffermio i ymateb i argyfwng yr hinsawdd, i'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth a'r problemau iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag allyriadau o amaethyddiaeth;
- Bydd yn rhoi fframwaith o bwerau galluogi lefel uchel i Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt allu addasu ac ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i amgylchiadau cyfnewidiol. Lle bo angen, darperir manylion fel arfer mewn is-ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau fydd yn destun ymgynghori yn ôl yr angen;
- Bydd yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael - gan gynnwys tystiolaeth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol - a chaiff ei defnyddio i asesu a deall effeithiau ein cynigion i adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig. Byddwn yn glir ac yn dryloyw ynghylch ffynonellau ein data a'n rhagdybiaethau a byddwn yn trafod â'n rhanddeiliaid wrth inni ddatblygu'n sylfaen dystiolaeth er mwyn iddynt allu ein helpu i lunio'n dadansoddiad a chyfrannu ato;

² Datganiad Llafar yn y Senedd gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 7 Gorffennaf 2020.

- Bydd yn dod â darnau gwahanol o ddeddfwriaeth ar amaethyddiaeth ynghyd, gan gyfrannu at y broses o grynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru gyda'r bwriad o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, yn unol â gofynion Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.
- iii) Wrth ddatblygu polisi a dadansoddi ymatebion yr ymgynghoriadau ers canlyniad refferendwm yr UE hyd heddiw, rydym wedi ystyried heriau a chanlyniadau economaidd posibl ymadael â'r UE ac yn fwy diweddar, pandemig Covid-19. Dros yr un cyfnod, gwnaethom gyhoeddi ei bod yn argyfwng hinsawdd yng Nghymru ac rydym wedi cydnabod effaith rhai mathau o ddwysáu amaethyddol ar fioamrywiaeth tir fferm ac iechyd y cyhoedd.
 - iv) Mae rhai rhanddeiliaid am weld cadw'r status quo o ran cyllido a mathau eraill o gymorth gan ddadlau y byddwn yn gwaethgu'r heriau uchod trwy newid y cymorth hwnnw. Rydym yn anghytuno. Fel yr esbonion ni yn ein hymgynghoriad cyntaf, *Brexit a'n Tir*, nid yw'r arian a roddwyd i ffermwyr trwy Bolisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE wedi rhoi'r sector mewn sefyllfa gydnerth na chwaith wedi gorchfygu'r heriau amgylcheddol sy'n ein hwynebu.
 - v) Rydym yn hytrach am weld newidiadau i'r cymorth er mwyn ein galluogi i weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r holl broblemau hyn. Daw'r newidiadau a ddisgrifir yn y Papur Gwyn hwn â budd i ffermwyr a chymunedau gwledig trwy gynnig dyfodol cynaliadwy i amaethyddiaeth.
 - vi) Trwy fabwysiadu fframwaith polisi a chymorth ar gyfer y dyfodol sy'n seiliedig ar Reoli Tir yn Gynaliadwy (SLM), byddwn yn gallu ymateb i'r heriau hyn trwy bennu gwir werth i'r canlyniadau amgylcheddol y bydd y fferm yn esgor arnynt wrth gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gan greu sector amaethyddol sy'n economaidd gadarn yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd yn cynnig y cyfle gorau i ffermwyr sicrhau busnesau ffermio sy'n gadarn o safbwynt amgylcheddol ac economaidd.
 - vii) Wrth ddatblygu'n cynigion ar gyfer cefnogi ffermwyr yn y dyfodol, rydym yn asesu'u heffeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o'u cymharu ag effeithiau'r cymorth presennol a ddarperir trwy'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS)³. Rydym eisoes yn trafod y dadansoddiad hwn â'n rhanddeiliaid a bydd yn debygol o gael ei gwblhau yn 2021.

³ Cynllun Taliad Sylfaenol – Yr elfen benodol o Bolisi Amaethyddol Cyffredino (PAC) yr UE sy'n darparu cymorth incwm (heb gysylltiad â chynhyrchiant) i ffermwyr. Daw'r Cynllun Taliad Sylfaenol i ben yng Nghymru gan fod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Ein Cynigion: Rhan Un - Dibenion y Bil

- viii) Rydym am i'r Bil greu system sy'n gweithio i Gymru, ein ffermwyr, ein rheolwyr tir, ein cymunedau gwledig a'r gadwyn gyflenwi a'r diwydiant ehangach. Mae'r papur hwn yn cynnwys ein cynigion i:
- Greu cynllun cymorth i ffermwyr y *Cynllun Ffermio Cynaliadwy* arfaethedig i gymryd lle cynlluniau presennol yr UE. Byddai'n mynd i'r afael ag agweddau ar y newid yn yr hinsawdd, iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth trwy Reoli Tir yn Gynaliadwy. Byddai'r cynllun fferm gyfan integredig hwn yn ei gwneud yn bosibl cynhyrchu bwyd cynaliadwy yr un pryd â gwella'r materion cymdeithasol hyn;
 - Helpu'r rhannau hynny o'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach fydd hefyd yn cefnogi SLM ar y fferm;
 - Lleihau cymhlethdod y rheoliadau trwy gyfuno'r ddeddfwriaeth yn un set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan ddarparu cyngor ac arweiniad i'w cefnogi ac i annog ffermwyr i gydymffurfio. Y Safonau hyn fydd y llinell sylfaen reoleiddio y bydd y cynllun arfaethedig yn gweithredu arni;
 - Gwella'r drefn ar gyfer gorfodi rheoliadau amaethyddol trwy gyflwyno mesurau newydd i sicrhau bod camau gorfodi'n adlewyrchu difrifoldeb a maint y tramgwydd;
 - Monitro'n well trwy ddefnyddio technoleg o bell a data'n effeithiol;
 - Gwella iechyd a lles anifeiliaid;
 - Rheoleiddio a chefnogi coedwigaeth a rheoli coetiroedd yn well.

Deddf Amaethyddol y DU 2020 – effaith y cymal 'machlud'

- ix) Rydym wedi sicrhau pwerau i Weinidogion Cymru trwy Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (*Deddf y DU*). Cafodd Deddf y DU ei chyflwyno i Senedd y DU ar 16 Ionawr 2020 a daeth yn gyfraith ar 11 Tachwedd 2020. Mae'n rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru allu parhau i ddarparu'r cymorth presennol i ffermwyr ar ôl 2020 ac i sicrhau bod y sector amaethyddol a'r marchnadoedd amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i ni ymadael â'r UE. Mae cyfyngiad amser ar rai o'r pwerau sydd wedi'u neilltuo i Weinidogion Cymru (yn Atodlen 5 y Ddeddf a nifer fach o ddarpariaethau cysylltiedig).
- x) Wrth i Ddeddf y DU fynd ar ei thaith, gwnaethom wrando'n ofalus ar y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Fel ymateb iddynt, gwnaethom nifer o newidiadau. Y rhai mwyaf arwyddocaol

oedd diddymu'r darpariaethau hynny fyddai wedi caniatáu i ni newid i systemau newydd o gymorth amaethyddol ac ychwanegu cymal 'machlud' i roi mewn deddf ein hymrwymiad i ddod â'r darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Gwnaethom yn glir hefyd y byddem yn dod â'n cynigion ni ger bron trwy gyfrwng Bil gan gadarnhau ein bwriad i ddeddfu trwy Senedd Cymru ar unrhyw fater y byddai ganddi gymhwysedd deddfwriaethol amdano. Bydd hynny'n adlewyrchu ein cred y bydd polisi a chymorth amaethyddol yn y dyfodol yn benodol ar y cyfan i Gymru, hynny er mwyn gallu diwallu'n hanghenion.

Ein Cynigion: Rhan Dau

- xi) Yn Rhan Dau, gwnaethom nodi ein cynigion ynghylch a fyddai unrhyw bwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru a geir yn Neddf y DU (nad ydynt yn dod o dan y cymal machlud) yn ddefnyddiol o ran cyflawni polisi yn y dyfodol. Rydym yn dal wrthi'n ystyried cwmpas y pwerau hyn yn ofalus, a fydd eu hangen o hyd ac a oes angen eu newid neu eu gwella. Bydd angen datblygu ac asesu'r cynigion hyn yn fanylach eto a bydd angen iddynt fod yn gyson â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd fel y'i nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn amodol ar y gwaith hwnnw, rydym yn bwriadu deddfu trwy Senedd Cymru ar y darpariaethau hynny y bydd dal eu hangen yn y Bil gan gynnwys:
- Y pwerau ("machlud") a roddwyd i Weinidogion Cymru trwy Ddeddf y DU a ddaw i ben ar 31 Rhagfyr 2024; a
 - Rhai pwerau yn Neddf y DU sy'n ymwneud â Chymru na ddônt i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

Casgliad

- xii) Mae o leiaf dwy ystyriaeth amseru bwysig i'r Bil:
- Y ddarpariaeth 'fachlud' yn Neddf y DU sy'n golygu y daw'r pwerau cyfredol i ben ar 31 Rhagfyr 2024; ac
 - Yr angen i roi pwerau newydd cyn i ni allu dechrau newid i'r cynlluniau newydd a gynigir.
- xiii) Rydym felly yn bwriadu cyflwyno'r Bil tuag at ddiwedd blwyddyn gyntaf y chweched Senedd (haf 2022).
- xiv) Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r Papur Gwyn hwn, ynghyd â ffrwyth y trafod â rhanddeiliaid a'r sylfaen dystiolaeth y byddwn yn ei datblygu, i'n helpu i lunio'n polisi tymor hir a'r trywydd deddfwriaethol.

Pennod 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Papur Gwyn hwn yn esbonio'n huchelgais i newid y ffordd y mae'r Llywodraeth yn cynnal amaethyddiaeth (gan gynnwys rheoli coetir ar ffermydd). Er mwyn gwneud newid o'r fath, rhaid wrth olwg strategol ar rôl a phwrpas amaethyddiaeth yng Nghymru, a rhaid deall hefyd yr hyn y mae cymdeithas Cymru'n gofyn amdano ac yn ei ddisgwyl gan ffermwyr a rheolwyr tir.
- 1.2 Rydym am glywed eich barn am brif elfennau'r Bil fydd yn gosod cyfeiriad polisi amaeth Cymru am y pymtheg i ugain mlynedd nesaf. Am hynny, mae'r Papur Gwyn hwn yn trafod mwy na'r angen i ddatblygu cynllun cymorth newydd i ffermwyr, er mai hwnnw fydd y prif erfyn ar gyfer rhoi'r polisi ar waith.
- 1.3 Gwnaethom nodi yn *Brexit a'n Tir* ac yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* y materion yn ein barn ni y byddai gofyn i unrhyw bolisi amaeth yn y dyfodol eu hystyried. Lle bo gofyn, rydym wedi diweddarau'r materion hynny i adlewyrchu'r sefyllfa fel y mae, cyn nodi'r cynigion ar gyfer mynd i'r afael â nhw.

Trefniadau Pontio a Masnach yr Undeb Ewropeaidd

- 1.4 Mae aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi rhoi amgylchedd cymharol sefydlog i amaethyddiaeth yng Nghymru weithredu ynddo am ddegawdau. Mae wedi rhoi cymorth incwm sylweddol i ffermwyr a mynediad at farchnad mawr ar gyfer eu cynnyrch, a chawsant eu diogelu gan ffin dariffau allanol. Hefyd, mae fframwaith cymhleth o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a domestig wedi rheoleiddio arferion ffermio a rheoli tir yng Nghymru.
- 1.5 Ond wrth inni gamu tuag at ddiwedd y cyfnod pontio ar ôl ymadael â'r UE, mae llawer iawn o ansicrwydd o hyd ynghylch manylion unrhyw gytundeb masnach yn y dyfodol ac a fydd gennym gytundeb o gwbl. Mae'r aneglurder ynghylch beth fyddai effaith y naill bosibilrwydd neu'r llall ar y farchnad ar gyfer cynnyrch fferm yn gwneud y sefyllfa hyd yn oed yn waeth.
- 1.6 Mae Deddf y DU yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno adroddiad i Senedd y DU ar gytundebau masnach newydd penodol. Byddai gofyn i'r adroddiad ystyried y mesurau sy'n berthnasol i'r fasnach mewn cynnyrch amaethyddol ac edrych ar eu heffeithiau posibl ar safonau y DU o ran bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo hefyd i roi sail statudol i'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddol trwy ddarpariaeth yn y Bil Masnachu. Nid

yw'r datblygiadau hyn fodd bynnag yn negyddu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod deddfu i ymrwymo i gynnal y safonau uchel presennol o ran diogelwch bwyd a lles anifeiliaid mewn unrhyw gytundeb. Mae hynny'n dweud cyfrolau. Mae diogelwch bwyd a lles yn faterion datganoledig ac rydym wedi dweud yn glir y byddwn yn gwrthwynebu unrhyw gymalau ym Mil y Farchnad Fewnol a fyddai'n caniatáu i San Steffan gychwyn ar 'ras i'r gwaelod' o ran safonau. Byddai hynny nid yn unig yn effeithio ar y cwsmer ond hefyd yn peryglu busnesau fferm ledled Cymru wrth iddyn nhw wynebu cystadleuaeth ryngwladol gan gwmnïau fydd yn fodlon anwybyddu'r safonau y mae ein ffermwyr ni'n cadw atynt.

- 1.7 Yn *Brexit a'n Tir*, rydym yn disgrifio canlyniadau difrifol posibl Brexit heb gytundeb i rai sectorau o'r diwydiant amaeth yng Nghymru, yn enwedig y sector cynhyrchu cig oen. Mae tua 35% o gig oen Cymru'n cael ei allforio o'r DU gyda 90% o hwnnw'n cael ei allforio i'r UE gan fanteisio ar y fasnach ddirwystr o fewn ffin dariffau allanol yr UE. Gallai colli marchnad yr UE yn ei chyflwr di-dariff presennol arwain at orgynhyrchu domestig i ddechrau a gostyngiad cyflym a mawr yn y pris. Yn y tymor canolig, gallai cynhyrchwyr cig eidion a llaeth weld cynnydd bychan yn eu prisiau wrth i gyfleoedd ymddangos ar gyfer cyfnewid mewnforion. Gallai hynny arwain at rai newidiadau strwythurol wrth i ffermwyr ymateb i gyfleoedd yn y farchnad.
- 1.8 Bydd gadael yr UE yn golygu hefyd ddiwedd PAC yr UE a'i daliadau i ffermwyr a'i fframwaith rheoleiddio. Mae amaethyddiaeth yn fater datganoledig. Mae cyfle inni felly greu system sy'n gweithio er lles ffermwyr, rheolwyr tir, cymunedau gwledig a'r gadwyn gyflenwi a'r diwydiant ehangach yng Nghymru. Mae nifer o resymau pwysig felly pam y bydd yn rhaid inni adolygu'n fframwaith rheoleiddio presennol a sut y byddwn yn cynnal ffermwyr yn y dyfodol. Nid y lleiaf o'r rheini yw bod polisi amaeth y pedair gwlad yn y DU eisoes yn mynd i gyfeiriadau gwahanol.

Cytundebau Masnach yn y Dyfodol

- 1.9 Wrth i Lywodraeth y DU ddechrau trafod cytundebau masnach â gwledydd fel yr Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd, mae'n debygol y daw mwy o bwysau i agor marchnad y DU i gynhyrchwyr amaethyddol. Dros amser, gallai ffermwyr Cymru weld felly fwy o gystadlu ar sail prisiau yn y farchnad adref. Er efallai y bydd ffermwyr mewn rhai sectorau yn y diwydiant yn gallu cystadlu ar sail cost, ni fydd hynny'n wir i lawer.
- 1.10 Bydd cyfle posibl wrth gwrs i gynnyrch Cymru mewn marchnadoedd newydd. Fodd bynnag, bydd allforio i farchnadoedd lle mae'r costau cynhyrchu

cyfatebol yn is yn golygu y bydd yn rhaid i gynnyrch Cymru gystadlu ar seiliau heblaw pris.

Covid-19

- 1.11 Fel gyda phob sector arall yn yr economi, mae pandemig Covid-19 wedi ychwanegu at y pwysau economaidd a'r ansicrwydd i ffermwyr, ond mae marchnadoedd amaethyddol domestig ar y cyfan wedi dangos peth cadernid positif. Adeg ysgrifennu hwn, mae'r DU yn cymryd y camau cyntaf at ymadfer ar ôl cyfnod o grebachu difrifol ar yr economi o ganlyniad i'r mesurau a gyflwynwyd fel ymateb i'r pandemig a'r effeithiau ar ddewisiadau unigol wrth ymateb i'r risgiau canfyddedig. Mae GDP y DU yn parhau rhyw 9% yn is nag yr oedd ym mis Chwefror, gyda'r GDP o amaethyddiaeth ryw 4% yn is.
- 1.12 Er i'r sefyllfa barhau'n gadarn ar y cyfan o ran cynhyrchu a chyflenwi bwyd i ddefnyddwyr, gyda rhagor o fanwerthwyr yn cynnig gwasanaethau ar-lein yn hwb i hynny, gwelwyd rhai newidiadau ym mhatrymau'r galw rhwng gwasanaethau bwyd a darparu gartref, ac am gynnyrch bwyd amaeth penodol. Mae busnesau prosesu bwyd amaeth wedi addasu eu ffyrdd o weithio lle gwelwyd bod angen er mwyn rheoli risgiau Covid-19, ac er gwaethaf achosion o'r clefyd ar weithwyr mewn rhai ffatrïoedd prosesu cig yn y DU, ni chafodd hynny effaith gyffredinol ar y cyflenwad hyd yma.
- 1.13 Cafodd y dirywiad sydyn yn y galw o fewn y sectorau gwasanaethau bwyd, arlwygo a lletygarwch rai effeithiau i ddechrau ar y galw am rai cynnyrch amaethyddol – a rhoddwyd ymyriadau polisi ar waith mewn rhai sefyllfaoedd. Mae amcangyfrifon diweddar yn dangos bod allbwn gwasanaethau bwyd a diod y DU wedi cynyddu'n sylweddol ond mae'n is o hyd nag yr oedd ym mis Chwefror 2020.

Cynhyrchu Bwyd yn Gynaliadwy

- 1.14 Mae gan ffermwyr Cymru le unigryw mewn cymdeithas, ac maen nhw'n cael eu cydnabod am gynhyrchu bwyd diogel o ansawdd uchel. Mae'r sector bwyd amaeth yn gyfrannwr pwysig at economi cefn gwlad, gyda llawer o swyddi'n dibynnu ar gynhyrchu cynradd a'r gadwyn gyflenwi ehangach.
- 1.15 Er bod y cadwyni cyflenwi a sefydlwyd gan fanwerthwyr bwyd yn golygu iddynt allu parhau i raddau helaeth i gyflenwi bwyd, mae'r pandemig wedi tynnu sylw at yr angen i ddiogelu'r cyflenwad bwyd ac at natur ryngwladol rhai cadwyni cyflenwi. Mae'n debygol y caiff mwy o sylw ei roi i ddiogelu'r cadwyni cyflenwi ar ddiwedd cyfnod pontio'r UE. Er nad yw'n bosibl i Gymru (na'r DU) fod yn hunan-gynhaliol mewn bwyd, mae cyfle nawr i ystyried sut y gallem

gwthogi'r gadwyn gyflenwi, diogelu'r cyflenwad bwyd a chynnal gwerth bwyd a gynhyrchir yng Nghymru am ei fod yn lleol ac yn gynaliadwy.

- 1.16 Rhaid inni felly barhau i gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gan gydnabod cystadleuaeth o fewn amaeth, cynhyrchu bwyd a chryfhau'r amgylchedd yn agweddau sy'n ategu'i gilydd. Byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant a'r gadwyn fwyd ehangach, gan gydnabod y gall diwydiant bwyd a diod Cymreig llewyrchus greu galw am gynnyrch cynradd o Gymru. Bydd hyn yn allweddol i ffermwyr Cymru allu cystadlu mewn marchnadoedd rhyngwladol a rhoi bwyd o Gymru ar fyrddau ledled y byd.

Ein Cymunedau Gwledig

- 1.17 Mae canlyniadau canrifoedd o ffermio a rheoli coetiroedd yng Nghymru yn weladwy i bawb. Ein tirweddau hardd a thrawiadol yn aml, yw un o'r prif resymau pam y mae twristiaeth yn ffynnu mewn llawer ardal yng Nghymru. Mae'r sector bwyd amaeth hefyd yn gyfrannwr pwysig at gyfalaf cymdeithasol cymunedau gwledig. Mae ambell fferm wedi bod o dan ofal yr un teulu am genedlaethau, gan greu ac atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithasol, tynhau eu clymau â chymunedau a chryfhau'r cymunedau hynny. Mewn llawer rhan o Gymru, mae'r defnydd di-dor o'r Gymraeg gan gymunedau ffermio wedi tynhau'r cwlwm hwnnw. Mae'r rhesymau pwysig hyn yn cyfiawnhau parhau ein cefnogaeth i amaethyddiaeth, gan gynnwys creu a rheoli coetiroedd fferm.

Argyfwng yr Hinsawdd

- 1.18 Llynedd, wrth ymateb i dystiolaeth ddiweddaraf y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn argyfwng hinsawdd. Ei bwriad oedd rhoi neges glir na fyddai ymadael â'r UE yn bwrw Llywodraeth Cymru oddi ar drywydd mynd i'r afael â her y newid yn yr hinsawdd sy'n bygwth ein hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith a'n hamgylchedd naturiol.
- 1.19 Yn 2019, gwnaethom dderbyn argymhelliad Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) y dylai Cymru gynyddu ei tharged lleihau allyriadau ar gyfer 2050 o 80% i 95% a chyhoeddodd uchelgais i fod yn sero-net. Ar ôl cael rhagor o gyngor gan yr UKCCC ym mis Rhagfyr 2020, byddwn yn gofyn i Senedd Cymru ddiweddarau'r llwybr statudol ar gyfer gostwng allyriadau Cymru ym mis Mawrth 2021. Mae'r targedau newydd yn gofyn i bob sector, gan gynnwys amaethyddiaeth, sy'n allyrru i ddwysáu ei ymdrechion.
- 1.20 Nid yw argyfwng yr hinsawdd yn fater y gallwn ei adael yn gyfangwbl i unigolion nac i'r farchnad rydd. Rhaid wrth weithredu gan bawb ac mae gan y

Llywodraeth ran ganolog i wneud hynny'n bosibl. Rydym felly'n croesawu uchelgais Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr i ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddiaeth Cymru a Lloegr i sero-net erbyn 2040.

- 1.21 Mae'r sector amaethyddol yn gyfrifol am ryw 13% o holl allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru (ar sail llinell sylfaen 1990). Er bod gwaith da wedi'i wneud i ostwng allyriadau amaethyddol, mae'r gostyngiad yn y gorffennol diweddar wedi arafu. Er mwyn taclo'r newid yn yr hinsawdd a gostwng allyriadau amaethyddiaeth, bydd yn rhaid wrth newidiadau i rai arferion ffermio a ffefrir ac sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae llawer o waith i'w wneud yn y maes hwn ac rydym yn cydnabod bod angen cydweithio os ydym am weld datrys rhai o'r problemau sy'n gysylltiedig ag allyriadau o'r sector rheoli tir.

Iechyd y Cyhoedd

- 1.22 Mae potensial i allyriadau o rai sectorau amaethyddol effeithio ar iechyd y cyhoedd o beidio â'u rheoli'n briodol. Mae amonia'n nwy sy'n gysylltiedig â gronynnau PM2.5 sydd â chysylltiad uniongyrchol â chlefydau anadlu a marwolaethau cyn pryd yng Nghymru. I wella ansawdd yr aer a lleihau afiechyd, rhaid mynd i'r afael â hyn.
- 1.23 Prif ffynhonnell amonia yng Nghymru yw amaethyddiaeth. Da byw sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf ohono, a daw cyfraniadau llai o ffermio tir âr. Fel y dywedir yn ein *Cynllun Aer Glân i Gymru*, mae mwyafrif llethol ein ffermwyr o ddifri ynghylch eu cyfrifoldebau amgylcheddol, ond wnawn ni ddim cwrdd â tharged y *Gyfarwydddeb Terfyn Uchaf Allyriadau Cenedlaethol* ar gyfer amonia heb ragor o welliannau. Mae llawer o'r camau y gellid eu cymryd i ostwng allyriadau amonia (fel newid y ffordd y caiff slyri a thail eu storio a'u gwasgaru) yn gallu gostwng carbon hefyd a lleihau costau ffermwyr. Byddwn yn helpu ffermwyr i wneud y newidiadau hyn a newidiadau eraill.
- 1.24 Mae amonia yn amharu ar ecosystemau hefyd. Gall asideiddio pridd a dŵr croyw, 'gor-wrteithio' cymunedau planhigion brodorol ac ecosystemau dŵr croyw, gan arwain at eu dirywio ac at golli bioamrywiaeth. Bydd ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnig cymhellion i ffermwyr wneud mwy i ddatrys y broblem bwysig hon.

Effeithiau Iechyd Anifeiliaid ar Iechyd y Cyhoedd

- 1.25 Dylai anifeiliaid cynhyrchu bwyd fyw mewn systemau cynhyrchu iach iawn sy'n bodloni'u gofynion lles fel bodau ymdeimladol ac sy'n cynhyrchu cynnyrch diogel ar gyfer eu bwyta gan bobl sy'n ennyn hyder y cyhoedd.
- 1.26 Mae cadw anifeiliaid yn iach yn lleihau hefyd y galw am wrthfotigau a moddion eraill i drin clefydau. Mae hynny yn ei dro yn lleihau'r risg o ymwrthedd i wrthfotigau (AMR), sef un o'r bygythion mwyaf i'n cymdeithas. Rhaid i atal a rheoli heintiadau fod yn greiddiol i ffermio da byw, ac nid yw'r defnydd pob dydd o foddion ar gyfer cynhyrchu yn gynaliadwy. Mae defnyddio llai o wrthfotigau yn cyfrannu hefyd at wella iechyd pridd.
- 1.27 Disgrifir ein hagwedd at Iechyd a Lles Anifeiliaid yn Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru⁴ ac at reoli AMR yn y Cynllun Gweithredu ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd⁵. Rydym yn cynnig bod ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy'n integreiddio amcanion iechyd a lles anifeiliaid.

Colli Bioamrywiaeth

- 1.28 Mae effaith rhai arferion amaethyddol ar fioamrywiaeth wedi'i hen gydnabod, gan gynnwys yn ein Cynllun Adfer Natur newydd. Yn arbennig, mae llawer o arferion ffermio dwys yn lleihau bioamrywiaeth ffermdir yn fawr, arferion fel defnyddio bioladdwyr a throi cynefin yn dir â neu'n laswelltir ungnwd. Mae adroddiad Asiantaeth Amgylchedd Ewrop, *The European Environment – State and Outlook 2020*⁶, yn pwyntio at ddwysáu amaethyddiaeth yn Ewrop (gan gynnwys yn y DU) fel un o brif achosion dirywiad ecosystemau a cholli bioamrywiaeth. Yn nes at adref, mae fersiwn diweddaraf yr *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol*⁷ a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn tynnu sylw at y parhad yn y dirywiad ym mioamrywiaeth Cymru, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd sy'n gysylltiedig â ffermdir wedi'i amgáu. Rydym yn ymrwmo y bydd ein cynllun arfaethedig yn gwyrddio'r colledion ym mioamrywiaeth ffermdir.

⁴ <https://llyw.cymru/fframwaith-iechyd-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2019-2020>

⁵ <https://llyw.cymru/ymwrthedd-gwrthficrobaidd-mewn-anifeiliaid-ar-amgylchedd-cynllun-gweithredu>

⁶ <https://www.eea.europa.eu/publications/soer-2020>

⁷ <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-interim-report-2019/?lang=cy>

Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid

- 1.29 Mae *Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru*⁸ yn disgrifio'n hymrwymiad i wella iechyd a lles anifeiliaid. I gefnogi Rheoli Tir yn Gynaliadwy, rhaid cadw'n hanifeiliaid fferm mewn ffyrdd sy'n sicrhau eu bod yn:
- Iach a chynhyrchiol, er mwyn bod yn rhan o fusnes fferm sy'n ariannol gynaliadwy;
 - Byw bywyd o ansawdd da, gan fodloni disgwyliadau cymdeithas a'r farchnad o ran lles anifeiliaid;
 - Gwella, ac nid yn difrodi'r amgylcheddau y maent yn byw ynddynt, eu bod yn rhan o ecosystemau bioamrywiol ac yn lleihau eu heffaith ar hinsawdd sy'n newid.
- 1.30 Byddwn yn sicrhau bod nodau ac egwyddorion *Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru* yn cael eu hymgorffori yn y cynigion i gynnal ffermwyr yn y dyfodol.

Ein cynigion ar gyfer cynnal ffermwyr yn y dyfodol

- 1.31 Yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, esboniwyd sut yr aethom ati i adeiladu ar ein dadansoddiad o'r polisi masnach a chymorth a fyddai ei angen yn y dyfodol ac a gyflwynwyd yn ein hymgyngoriad cyntaf, *Brexit a'n Tir*. Gwnaethom ddisgrifio sut y gwnaethom ddatblygu fframwaith polisi (SLM) sy'n ateb gofynion deddfwriaeth ddomestig (yn benodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016); y gofyn taer i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â rheoli tir; a'r dirywiad dibaid yn y fioamrywiaeth ar ffermdir. Gwnaethom benderfynu bod angen fframwaith polisi a fyddai'n rhoi egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar waith i gwrdd â'n hymrwymadau deddfwriaethol ac i fynd i'r afael â'r problemau hyn.
- 1.32 Rhaid inni barhau i gynhyrchu bwyd a chynnyrch eraill ar dir Cymru ond mae natur argyfwng yr hinsawdd a chyflymder y colledion yn ein fioamrywiaeth yn golygu bod rhaid gweithredu'n gyflym a gweithio'n galetach na chynt.
- 1.33 Rydym yn glir felly ein bod am gadw ein safonau uchel o ran yr amgylchedd, diogelwch bwyd a lles anifeiliaid yng Nghymru, gyda fframwaith rheoleiddio clir yn sail i hynny. Er eu lles eu hunain ac er lles cymdeithas, bydd gofyn i

⁸ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/fframwaith-iechyd-a-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2019-2020.pdf>

ffermwyr Cymru barhau i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel tra'n cynnal safonau cynhyrchu uchel. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth gynyddol bod ffermio dwys yn cael effeithiau andwyol ar gymdeithas trwy ostwng ansawdd aer a dŵr, cynyddu allyriadau carbon a lleihau'r fioamrywiaeth ar ffermdir. Rydym yn cynnig gofyn i ffermwyr Cymru fynd ymhellach, trwy ffermio mewn ffordd fydd yn cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Yn nodweddion o'r bwyd hwnnw y bydd ôl troed carbon isel, bioamrywiaeth ar gynnydd a llai o faethynnau'n cael eu colli i'r aer a dŵr. Byddai gwobrwyo ffermwyr am wireddu'r amcanion hyn trwy Gynllun Ffermio Cynaliadwy yn helpu i greu sector amaethyddol cynaliadwy a chryf yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein hadran ddata yn nodi sut y gallem roi tystiolaeth o gynaliadwyedd bwyd a gynhyrchir mewn systemau o'r fath. Byddai hynny o fudd i'r cwsmer ac i'r ffermwr.

Ein cynigion ar gyfer diwygio rheoliadau

1.34 Mae arferion rheoli tir yng Nghymru'n cael eu rheoleiddio gan fframwaith o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a domestig. Wrth adael yr UE, bydd nifer o resymau pwysig pam mae angen adolygu'n rheoliadau presennol:

- **Cynnal y safonau cyfredol:** Mae ffermwyr, rheolwyr tir a chwsmeriaid yn falch o'r safonau cynhyrchu bwyd o fri rhyngwladol sydd gennym yma yng Nghymru a'r DU, y tynnodd yr NFU sylw atynt yn eu hymgyrch ddiweddar⁹. Rydym wedi ymrwymo i gynnal y safonau uchel hyn wrth inni ymadael â'r UE;
- **Cyflawni ein hymrwymadau amgylcheddol:** Rhaid inni i gyd wneud mwy i ddiogelu'n hadnoddau naturiol. Rydym wedi esbonio bod ein rhesymau dros Reoli Tir yn Gynaliadwy yn seiliedig ar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rydym am wneud yn siŵr bod ein rheoliadau'n adlewyrchu'r ymrwymadau hyn;
- **Gwella'r profiad o reoleiddio:** Mae parhau i reoleiddio'n bwysig i ddiogelu'r amgylchedd yr ydym i gyd yn dibynnu arno, i gynnal safonau Cymreig ac i hybu masnach. Mae adroddiad iechyd Cyhoeddus Cymru *Cefnogi Cymunedau Ffermio yn ystod Cyfnodau o Ansicrwydd*¹⁰ yn nodi bod deall rheoliadau a chydymffurfio â nhw'n bwysig i ffermwyr er mwyn cynnal eu hiechyd meddwl a'u lles ac mae'n argymhell ein bod yn edrych

⁹ <https://www.campaigns.nfuonline.com/page/56262/petition/1>

¹⁰ <https://icc.gig.cymru/newyddion1/mae-angen-i-anghenion-iechyd-a-lles-ffermwyr-fod-yn-ganolog-ir-ymateb-i-brex-it-adroddiad-newydd/>

eto ar y gwaith sydd wedi'i wneud yn sgil yr adroddiad *Hwyluso'r Drefn 2011*¹¹;

- **Sicrhau bod gorfodi'n gymesur:** Mae'n bwysig bod rheoliadau'n cael eu rhoi ar waith yn gyfartal i bob ffermwr a rheolwr tir yng Nghymru a'u bod yn cael eu gorfodi mewn ffordd gymesur, yn ôl difrifoldeb y tramgwydd. Ar hyn o bryd, mae ffermwyr sy'n derbyn taliadau PAC yr UE yn cael eu cosbi am fynd yn groes i ofynion Trawsgydymffurfio¹² trwy golli rhan o'u taliadau. Ar y llaw arall, mae cynlluniau y tu allan i'r PAC yn dibynnu ar y llysoedd i orfodi cosbau troseddol ac nid yw hynny'n addas ar gyfer pob lefel o dramgwydd. Rhaid mynd i'r afael â hyn a sicrhau bod mesurau gorfodi'n gymesur i bob ffermwr a rheolwr tir.

- 1.35 Yn y Papur Gwyn hwn, mae gennym sawl cynnig ar gyfer diwygio rheoliadau amaeth yng Nghymru, gan gynnwys monitro a gorfodi cydymffurfiaeth.
- 1.36 Fel y disgrifir yn Adran 5 ar rannu data, rydym am wella'r ffordd rydym yn monitro sut mae ffermwyr yn cydymffurfio â rheoliadau trwy hyrwyddo system archwilio sy'n seiliedig fwyfwy ar risg a defnyddio technoleg o bell i dargedu ymweliadau â ffermydd yn well.
- 1.37 Rydym am ddefnyddio cyngor ac arweiniad clir gymaint ag y medrwn i annog pobl i gydymffurfio â rheoliadau. Ond, mae'n bwysig bod anogaeth a chosb gymesur a chyson i atal pobl rhag torri'r rheolau trwy sicrhau bod rheoleiddwyr yn gallu defnyddio cosb sy'n briodol i'r tramgwydd. Yn Adran 2, rydym wedi disgrifio'n cynigion i gyflwyno pwerau sylfaenol ar gyfer amrywiaeth o sancsiynau sifil.

¹¹ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-llywodraeth-cymru-i-hwylusor-drefn-adroddiad-ar-argymhellion-i>

¹² Mae Trawsgydymffurfio'n cyfeirio at ofynion y rheoliadau sylfaenol y mae'n rhaid i bob ffermwr eu bodloni i dderbyn taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) (gan gynnwys y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) neu gymorth datblygu gwledig) yng Nghymru. Mae'n gosod y sylfaen i ffermwyr Cymru allu cynhyrchu bwyd ac mae'n facanwaith pwysig i ddiogelu a gwarchod cefn gwlad Cymru. Rhestrir y gofynion Trawsgydymffurfio yn Atodiad II Rheoliad 1306/2013 ac maen nhw'n cynnwys Gofynion Rheoli Statudol (SMR) a gofynion o ran cadw tir mewn Cyflwr Amgylcheddol ac Amaethyddol Da (GAEC). Mae SMRs yn safonau deddfwriaethol yr UE o ran yr amgylchedd, diogelwch bwyd, iechyd anifeiliaid a phlanhigion a lles anifeiliaid. Mae GAECs yn Safonau ar gyfer cadw tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/glastir-uwch-safonau-dilysadwy.pdf>

1.38 Mae'r diwygiadau'n ymwneud â'r cynigion rheoleiddio cychwynnol canlynol:

- Datblygu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol i ddarparu llinell sylfaen glir o reoliadau fydd yn gymwys i bob ffermwr yng Nghymru;
- Gwelliannau i iechyd a lles anifeiliaid;
- Rheoleiddio coedwigaeth a rheoli coetir.

1.39 Bydd angen cynnal ymgynghoriadau unigol ar y rheoliadau uchod wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth.

1.40 Bwriedir i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ddod i rym yr un pryd â'n Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fel y dywedwn yn Adran 2, mae'r cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau amaethyddol ar wahân i'r sancsiynau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i hyd a lled y sancsiynau sifil, sut y byddwn yn eu defnyddio a'u perthynas â gofynion y cynllun. Bydd angen i ni hefyd ystyried sut y bydd yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r cofnod pontio i'r Cynllun newydd.

Crynodeb

1.41 Bydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn gyfrwng i gyflawni ein hamcanion strategol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Bydd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn, sy'n deillio o'r fframwaith cyfreithiol a grëwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn esgor ar rai newidiadau gweladwy ar lefel y dirwedd yng Nghymru. Bydd y newidiadau hynny'n cynnwys mwy o goetir, mwy o gynhyrchu â'r garddwrol a mwy o waith i gryfhau cynefinoedd ar lefel y fferm a'r dirwedd. Bydd newidiadau hefyd i'r ffordd y bydd amaethyddiaeth yn gweithio, gyda chadwyni cyflenwi llai, pwyslais newydd ar y lleol a rheolaeth well ar ddata. Bydd gan ffermydd fodel busnes tymor hir cynaliadwy i fanteisio ar ofyn y farchnad iddynt gynhyrchu'r bwyd y mae cwsmeriaid am ei fwyta ond mewn ffordd fydd yn esgor ar ganlyniadau eraill y bydd Llywodraeth Cymru'n talu iddynt amdanynt. Yn llai gweladwy, bydd ffermydd yn lleihau eu hól troed carbon yn fawr ac yn cyfrannu at wella iechyd y cyhoedd trwy wella ansawdd aer a dŵr.

Pennod 2. Ein Cynigion Rhan Un: Diwygio Rheoliadau, Polisi'r Dyfodol a Chymorth ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Adran 1

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Cadw, esbonio a chymhwyso ein rheoliadau

Crynodeb

- 2.1 Rydym yn cynnig cynnwys pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru allu creu Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer amaethyddiaeth. Ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, rydym yn cynnig crynhoi'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r gofynion Trawsgydymffurfio mewn is-ddeddfwriaeth, heb ei newid lawer ac ond ychwanegu ati lle bo angen. Bydd ymgynghoriad manylach ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhan o'r is-ddeddfwriaeth hon. Byddwn am i'r pwerau fod yn ddigon eang i sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn addas at y dyfodol a bod digon o bwerau archwilio i reoleiddwyr allu monitro bod pawb yn cydymffurfio.

Yr Achos dros Newid

- 2.2 Mae'r rheoliadau amaethyddol sy'n ymwneud â rheoli tir wedi'u rhannu rhwng nifer o offerynnau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Senedd Cymru, Senedd y DU a'r UE ar adegau gwahanol i ddatrys problemau gwahanol. Mae hynny'n gallu ei gwneud hi'n anodd i ffermwyr ddeall y rheoliadau y mae disgwyl iddyn nhw gydymffurfio â nhw. Roedd yr ymatebwyr i *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* yn cytuno bod y drefn reoleiddio bresennol yn rhy gymhleth a bod angen symleiddio a chwynnu'r fframwaith reoleiddio.
- 2.3 Mae'r gofynion Trawsgydymffurfio yn cynnwys Gofynion Rheoli Statudol (SMRs) ac Amodau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAECs). Ar hyn o bryd, mae tua 16,400 o ffermwyr yng Nghymru yn hawlio taliadau'r PAC ac felly'n gorfod cydymffurfio â'r gofynion Trawsgydymffurfio.
- 2.4 Mae mwyafrif llethol y safonau Trawsgydymffurfio wedi'u cynnwys hefyd mewn deddfwriaeth ddomestig Gymreig. Mae pob ffermwr felly yn gorfod cydymffurfio â nhw, p'un a ydynt yn hawlio taliadau'r PAC neu beidio. Ond mae'n bosibl nad yw ffermwyr sydd ddim yn derbyn taliadau'r PAC mor ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol hyn.

Ein Cynigion

- 2.5 Rydym am gadw'r safonau sydd gennym ar hyn o bryd a'u gwneud yn gliriach. Er mwyn lleihau cymhlethdod presennol y rheoliadau, rydym yn cynnig dod â'r ddeddfwriaeth amaethyddol ynghyd i greu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol gan grisialu a chrynhoi'r rheoliadau amaethyddol mewn un darn o ddeddfwriaeth.
- 2.6 Byddai datblygu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhoi llinell sylfaen reoleiddio glir i holl ffermwyr Cymru. Byddai'n ei gwneud yn bosibl monitro rheoliadau amaethyddol a'u gorfodi mewn ffordd gyson, gan greu cae chwarae gwastad ledled Cymru ar gyfer pob busnes sy'n rheoli tir amaethyddol.
- 2.7 Rydym yn cynnig y dylai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol fod yn seiliedig yn y lle cyntaf ar y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r gofynion Trawsgydymffurfio. Byddai hynny'n golygu cadw'r gofynion cyfreithiol sydd eisoes yn bod. Fel y dywedir uchod, mae'r SMR i gyd a'r rhan fwyaf o'r GAEC eisoes wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth ddomestig. Felly, nid ydym yn cynnig newid mawr i'r gofynion cyfreithiol presennol heblaw am grynhoi'r hyn sydd eisoes yn gyfraith yn un lle. Fel y dywedir yn Adran 2, rydym yn cynnig y bydd trefn orfodi gymesur newydd ynghlwm wrth y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac y bydd yn destun ymgynghori pellach. Nid ydym yn cynnig cadw cosbau presennol y BPS am fynd yn groes i'r gofynion Trawsgydymffurfio. Ond, fel y disgrifir yn Adran 3, gan y bydd cydymffurfio â'r rheoliadau yn ofyn o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, gallai peidio â chydymffurfio â'r rheoliadau beryglu taliadau'r cynllun. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach ac yn ymgynghori arno wrth ddylunio manylion y cynllun.
- 2.8 Wrth ddatblygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, byddwn am i randdeiliaid ein helpu i ystyried yn ofalus unrhyw anghysonderau all fod rhwng gofynion Trawsgydymffurfio a deddfwriaeth ddomestig. Er enghraifft, mae gwahaniaethau rhwng y gofynion ar gyfer cynnal nodweddion y dirwedd yn GAEC7 a'r ddeddfwriaeth ddomestig ar warchod cynefinoedd a pherthi. Bydd angen i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol unioni hyn. Rydym yn cynnig y dylid cynnwys GAEC 4 a 5 sy'n gofyn i ffermwyr gynnal lefel ofynnol o orchudd pridd ynghyd ag osgoi erydu a chywasgu pridd, yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Heb hynny, ni fydd rheoliadau statudol ar gyfer diogelu pridd yng Nghymru.
- 2.9 Mae ffermwyr sy'n derbyn taliadau'r BPS eisoes yn gyfarwydd â chydymffurfio ag SMR a GAEC Trawsgydymffurfio, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â phridd. Felly ni fydd hyn yn golygu newid newydd i'r mwyafrif a byddai'n gwneud y gofynion cyfreithiol i'r holl ffermwyr yn fwy clir.
- 2.10 Byddai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cynnwys manylion technegol am arferion ffermio a rheoli tir a bydd angen eu newid yn amlach nag sy'n arferol mewn deddfwriaeth sylfaenol, er mwyn ymateb i sefyllfa fydd yn newid dros amser. Felly, yn ein barn ni, y ffordd fwyaf priodol o sicrhau bod gennym yr

hyblygrwydd i wneud y newidiadau hyn yw trwy roi pwerau i Weinidogion Cymru greu'r safonau hyn trwy is-ddeddfwriaeth. Mae nifer o resymau pam y bydd hyblygrwydd yn bwysig, gan gynnwys i:

- Ymateb i newidiadau ac ysgwyddo'n rhwymedigaethau statudol a rhyngwladol, nawr ac yn y dyfodol, ar newid hinsawdd a'r amgylchedd yng Nghymru;
- Ymateb i newidiadau yn ein harferion amaethyddol;
- Taclo problemau newydd, fel risgiau ac achosion o glefyd;
- Cynnal safonau priodol er mwyn medru masnachu â'r UE a gweddill y byd;
- Ymateb i ddatblygiadau deddfwriaethol newydd a chrynhai deddfwriaeth ymhellach;
- Ymateb i newidiadau arwyddocaol i'n Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

- 2.11 Yn y tymor hir, gallai fod yn briodol crynhai darnau eraill o ddeddfwriaeth amaethyddol o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Er enghraifft, os penderfynir gwneud Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2020, byddant yn debygol o ddod i rym cyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Byddem yn cynnig crynhai'r rheoliadau hyn yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol gan iddynt gael eu creu i daclo llygredd amaethyddol mewn ffordd a fyddai'n cyflawni hefyd ein hymrwymiaidau o dan y Gyfarwydddeb Nitradau ac a fydd yn rhan o'r safonau Trawsgydymffurfio.
- 2.12 Bydd cynigion hefyd yn y Papur Gwyn hwn ar gyfer rheoliadau mewn meysydd amaethyddol newydd. Mae'n bosibl y byddwn am eu hymgorffori, neu rai ohonynt, yn y Safonau yn y dyfodol. Byddem yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar gynigion o'r fath.
- 2.13 Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth sy'n bod eisoes a'r ddeddfwriaeth a fydd yn bod adeg crynhai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn y lle cyntaf, bydd deddfwriaeth amaethyddol newydd yn debygol o gael ei chynnig yn y dyfodol ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch arferion ffermio ac iechyd a lles anifeiliaid inni allu ysgwyddo'n rhwymedigaethau domestig a rhyngwladol ar yr amgylchedd a newid hinsawdd. Er mwyn cadw'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn berthnasol i'r dyfodol, bydd angen i'r pwerau yn y Bil fod yn ddigon eang i allu ymgorffori deddfwriaeth o'r fath.
- 2.14 O dan y fframwaith newydd, bydd angen pwerau digonol ar reoleiddwyr iddynt allu cynnal eu dyletswyddau rheoleiddio. Rydym am gadw pwerau statudol presennol rheoleiddwyr i archwilio pob fferm a rheolwr tir a defnyddio'r pwerau hyn i fonitro'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol newydd.

- 2.15 Bydd gofyn ystyried sut y dylai rheoleiddwyr fonitro (yn broactif ac adweithiol) bod hawlwy ac eraill yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol mewn ffordd gyson yng Nghymru. Bydd gofyn inni ystyried hefyd a fyddai'n briodol pennu cyfraddau archwilio, sef cynnal nifer penodol o archwiliadau bob blwyddyn. Ond bydd angen ystyried hyn yn fanwl ac ymgynghori arno, gan gynnwys ystyried faint o adnoddau fydd ei angen. Rydym wedi cynnwys cynigion i fonitro rheoliadau'n well yn Adran 5 y Papur Gwyn hwn.

Cyngor a Chanllawiau

- 2.16 Mae'n bwysig, er mwyn hwyluso diwygio'r drefn reoleiddio a helpu'r diwydiant amaeth i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol a fwriedir trwy'r rheoliadau, bod cyngor ac arweiniad priodol a hygyrch yn cael eu darparu. Bydd angen rhoi cyngor ac arweiniad er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r canlynol:

- **Y gofynion cyfreithiol y bydd yn rhaid i bob ffermwr gydymffurfio â nhw.** Fel ein bwriad i grynhoi'r rheoliadau o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, bydd angen paratoi canllawiau cadarn a chynhwysfawr, fydd wedi'u teilwra ar gyfer ffermwyr ac yn esbonio'n glir beth y bydd angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheoliadau;
- **Y disgwyliadau o ran monitro cydymffurfiaeth.** Gall gwella'r ffordd y mae ffermwyr yn cael eu monitro newid y ffordd y byddant yn cyfathrebu ac yn ymwneud â rheoleiddwyr. Mae'n bwysig nodi'r gwelliannau hyn yn y canllaw er mwyn i ffermwyr wybod pa gwestiynau i'w disgwyl gan reoleiddwyr yn ystod y broses fonitro;
- **Y drefn orfodi, fel sancsiynau troseddol neu sifil, a ddefnyddir pan dorrir rheolau.** Gyda chyflwyno trefn orfodi newydd, mae'n bwysig bod ffermwyr a rheolwyr tir yn deall y gosb y gallent ei disgwyl am beidio â chydymffurfio a'r broses o roi'r cosbau hyn, gan gynnwys y drefn ar gyfer apelio yn erbyn cosb.

- 2.17 Rydym ni'n meddwl y bydd sicrhau bod ffermwyr yn deall yr uchod yn helpu i leihau rhai o effeithiau negyddol y rheoliadau arnynt. Mae'n bwysig felly ein bod yn neilltuo amser i lunio canllawiau a chyngor hwylus mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid. Rydym am glywed eu barn am ystyriaethau eraill hefyd, gan gynnwys:

- Ffurf y canllaw (e.e. llawlyfrau, adnoddau ar-lein, hyfforddiant ac ati);
- Pwy fydd yn gyfrifol am lunio a darparu'r canllaw;
- Hyd a lled y canllaw (e.e. a ddylai esbonio gofynion y rheoliadau yn unig neu a ddylai roi gwybodaeth am arferion gorau hefyd);
- Rôl y gwasanaethau cynghori ffermwyr wrth helpu ffermwyr.

Cwestiynau ymgynghori

- 1 Beth yw'ch barn chi am:
 - (a) Y ffordd rydym am fynd ati i greu Safonau Gofynnol Cenedlaethol?
 - (b) Yr angen am hyblygrwydd i allu diwygio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol pan fo angen? A oes angen ystyried unrhyw beth arall?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

- 2 Beth yw'ch barn chi ynghylch:
 - (a) Sut gall cyngor a chanllawiau helpu ffermwyr i ddeall y Safonau Gofynnol Cenedlaethol; ac
 - (b) Yr ystyriaethau eraill wrth roi cyngor a chanllawiau? Er enghraifft, ffurf y canllaw, pwy ddylai ei ddarparu, hyd a lled y canllaw a sut gallai gwasanaethau cynghori helpu ffermwyr.

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r ystyriaethau hyn

Adran 2

Sanctsiynau Sifil: Trefn orfodi effeithiol a chymesur

Crynodeb

- 2.18 Yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, gwnaethom esbonio bod angen trefn orfodi gymesur arnom, a chalondid oedd gweld bod yr ymatebwyr yn cytuno â ni. Yn ein barn ni, y ffordd orau o wireddu'r nodau hyn yw trwy ofalu bod dewis eang o sanctsiynau ar gael i reoleiddwyr i orfodi ffermwyr i gydymffurfio. Rydym yn cynnig felly bod y Bil yn cynnwys darpariaethau fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio system o sanctsiynau sifil fel rhan o'r drefn o orfodi cydymffurfiaeth. Bydd hyn yn golygu y bydd rheoleiddwyr yn gallu rhoi cosb gymesur, p'un a yw'r ffermwr neu'r rheolwr tir yn aelod o gynllun neu beidio. Rydym yn cynnig bod union natur y sanctsiynau hyn yn cael eu pennu yn yr is-ddeddfwriaeth.
- 2.19 Yn ein barn ni, dylai'r gosb fod yn gymesur â difrifoldeb y tramgwydd ac â'r niwed i'r amgylchedd a chymdeithas, neu â'r potensial i wneud niwed. Bydd hyn yn amrywio, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb a maint y tramgwydd. Nid ydym am droi ffermwyr a rheolwyr yn droseddwy'r felly lle medrwn byddwn yn defnyddio sanctsiynau eraill sy'n fwy addas ar gyfer tramgwyddau llai difrifol. Fodd bynnag, mae angen trefn orfodi arnom fydd yn atal y rheini sy'n mynnu parhau i dorri'r rheoliadau.
- 2.20 Fel y disgrifir uchod, rydym yn cynnig bod pwerau sylfaenol i roi sanctsiynau sifil ar gael yn y meysydd rheoleiddio amaethyddol canlynol a ddisgrifir yn y Papur Gwyn:
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol:
 - Rheoliadau iechyd a lles anifeiliaid;
 - Rheoliadau coedwigaeth a rheoli coetir.

Y Ddadl dros Newid

- 2.21 Mae'r rhan fwyaf o reoliadau amaethyddol yn cael eu gorfodi ar hyn o bryd fel a ganlyn:
- **Lleihau taliadau'r PAC** pan fydd ffermwr neu reolwr tir sy'n derbyn taliad un o gynlluniau PAC yr UE, wedi mynd yn groes i un o'r gofynion Trawsgydymffurfio;
 - **Sanctsiynau troseddol**, y gall pob ffermwr a rheolwr tir eu cael;

- **Sancsiynau sifil:** Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pwerau i ddefnyddio sancsiynau sifil am dramgwyddau sy'n ymwneud â gwastraff, dŵr a rhywogaethau estron goresgynnol. Mae nifer fach ohonynt yn berthnasol i ffermio.
- 2.22 Cosbau ariannol trwy gynlluniau PAC yr UE, fel y BPS, yw'r drefn orfodi fwyaf cyffredin, gan fod cymaint o ffermwyr a rheolwyr tir yn derbyn taliadau'r PAC. Gwelwyd bod y cosbau ariannol hyn yn ffordd gymharol effeithiol o'u cael i gadw at y rheolau.
 - 2.23 Enghraifft dda arall o hyn yw'r cosbau ariannol am gynnal profion TB gwartheg yn hwyr a gyflwynwyd yn 2015. Mae profion yn rhan bwysig o'n hymdrechion i ddileu'r clefyd mewn da byw. Ers hynny, mae nifer y profion hwyr wedi gostwng yn sylweddol o 1,755 yn 2014 i 486 o fewn blwyddyn i gyflwyno'r gosb. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn y blynyddoedd wedi hynny rhwng 2015 a 2019.
 - 2.24 Rydym yn cydnabod fodd bynnag nad yw cosbau BPS wastad yn cael eu hystyried yn gymesur â'r tramgwydd. Mae cosbau'n gallu cael eu rhoi am gamgymeriadau gweinyddol wrth hawlio BPS, ac ni fyddai'r rheini'n addas am fynd yn groes i reoliadau. Hefyd, ar gyfer ffermwyr nad ydynt yn derbyn taliadau PAC yr UE, er bod rheoleiddwyr yn cael rhoi rhybudd mewn rhai achosion, dibynnir yn llwyr ar sancsiynau troseddol i orfodi'r rhan fwyaf o reoliadau. Mae hynny'n golygu gan fwyaf cosbau ariannol a record droseddol, gyda charchar ar gyfer y tramgwyddau mwyaf difrifol. Mae sancsiynau troseddol yn gallu bod yn effeithiol i atal anghydymffurfio a chosbi tramgwyddau difrifol. Ond nid oes gan reoleiddwyr yr ystod o fecanweithiau gorfodi sydd ar gael ar gyfer tramgwyddau llai difrifol. Mae erlyn hefyd yn gostus ac yn broses hir. Mae gwersi felly i'w dysgu o'r ffordd y mae cosbau a sancsiynau troseddol BPS yn cael eu rhoi i sicrhau bod y drefn orfodi newydd yn deg a chymesur.
 - 2.25 Oherwydd prinder yr opsiynau sydd ar gael i reoleiddwyr, mae hi'n anodd weithiau taro'r cydbwysedd iawn rhwng cosbi ac atal anghydymffurfio. Bernir bod hyn yn arbennig o berthnasol, yn enwedig wrth ddelio â thramgwydd nad yw'n fân nac yn ddifrifol. Mae'r bwlch gorfodi yn golygu hefyd na fydd y tramgwyddau mwyaf mân wastad yn cael sylw ar unwaith gan greu'r potensial i broblem dyfu ac achosi mwy o niwed.

Ein Cynigion

- 2.26 Rydym am gael cadw sancsiynau troseddol er mwyn gallu cosbi a mynd ati yn effeithiol i atal tramgwyddau difrifol a thramgwyddo drosodd a thro.
- 2.27 Yn ein barn ni, mae sancsiynau sifil yn drefn orfodi effeithiol a chymesur ar gyfer tramgwyddau llai difrifol. Mae rheoleiddwyr eisoes yn eu defnyddio i orfodi cyfraith amgylcheddol yn y DU.
- 2.28 Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pwerau i ddefnyddio sancsiynau sifil ar gyfer cymaint o amrywiaeth o dramgwyddau ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi tynnu'n sylw at fanteision sancsiynau sifil.
- 2.29 Yn y Bil, rydym yn cynnig cynnwys cyfres o sancsiynau sifil, yn amrywio o rybuddion i gosbau ariannol, y gellir eu defnyddio ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac mewn meysydd eraill fel lles anifeiliaid a thrwyddedau cwmpo coed. Bydd y math o sancsiwn sifil yn dilyn yn fras trefn Cyfoeth Naturiol Cymru a'r rheoleiddwyr amgylcheddol yn Lloegr, a amlinellir yn Neddf Gorfodi a Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008.
- 2.30 Rydym am ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r systemau cosbi presennol i greu trefn orfodi newydd. Caiff y BPS ei ddisodli'n llwyr gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Nid yw'n fwriad i'r sancsiynau sifil gymryd lle cosbau'r BPS a byddant yn wahanol i'r sancsiynau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Bydd gofyn ystyried yn fanwl gwmpas a gweithrediad y sancsiynau sifil a'u perthynas â gofynion y cynllun, ac ymgynghori ar hynny. Gallai'r sancsiynau sifil gynnwys:
- **Rhybuddion Cydymffurfio:** Pan fydd ffermwr neu reolwr tir yn mynd yn groes i'r rheoliadau, gellir rhoi rhybudd iddo gydymffurfio fydd yn esbonio beth sy'n rhaid ei wneud i gydymffurfio unwaith eto;
 - **Rhybuddion Adfer:** Pan fo'r tramgwydd wedi niweidio'r amgylchedd neu iechyd anifail/pobl mewn ffordd y gellid ei unioni, caiff rhybudd adfer ei roi fydd yn esbonio sut y gallai'r ffermwr neu'r rheolwr tir unioni'r niwed sydd wedi'i wneud;
 - **Rhybuddion Stop:** Pan welir bod perygl y gallai gweithgaredd niweidio'r amgylchedd neu iechyd anifail/pobl, caiff rhybudd stop ei gyflwyno i roi stop ar y gweithgaredd tan y bydd asesiad llawn o'r perygl wedi'i gynnal;
 - **Cosb Ariannol Sefydlog (FMP):** Pan fydd yn hysbys bod tramgwydd mân yn niweidio'r amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd, gellid pennu gwerth ariannol i'r tramgwydd ar sail y niwed y bydd yn debygol o'i achosi i'r amgylchedd neu gymdeithas;
 - **Cosb Ariannol Newidiol (VMP):** Bydd gwerth Cosb Newidiol yn cael ei bennu yn benodol i'r tramgwydd unigol, gyda'r nod o ddiddymu unrhyw

fudd ariannol y gellid bod wedi'i gael trwy'r tramgwydd a digolledu difrifoldeb y niwed a achosir i'r amgylchedd/lles anifeiliaid/cymdeithas. Bydd yn caniatáu i rheoleiddwyr osod cosbau ariannol gwahanol i dramgwyddau gwahanol, yn seiliedig ar ffactorau fel maint yr anghydymffurfio;

- **Ymgymeriad Gorfodi (EUT):** Bydd yr EUT yn gytundeb cyfreithiol lle gall ffermwr neu reolwr tir gynnig adfer y niwed a wnaed i'r amgylchedd neu ymgymryd â chatau fydd yn dod â budd neu welliant cyfatebol.


- 2.31 Trwy ganiatáu i reoleiddwyr ddefnyddio'r sancsiynau sifil hyn yn lle sancsiynau troseddol, bydd ganddynt yr hyblygrwydd i roi cosb gymesur ac effeithiol, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb a maint y tramgwydd unigol.

Sut y bydd y drefn orfodi'n gweithio

- 2.32 Lle bo'n addas, caiff rheoleiddwyr roi rhybudd, hysbysiad neu gosb ariannol ar gyfer mân dramgwyddau, gyda'r nod o sicrhau bod ffermwr neu reolwr tir naill ai'n rhoi'r gorau i'r gweithgaredd gwaharddedig, a/neu'n adfer y niwed a achoswyd trwy anghydymffurfio.
- 2.33 Os bydd ffermwr neu reolwr tir yn parhau i dramgwyddo neu'n dangos patrwm o anghydymffurfio neu esgeulustod, gallai cosb ariannol fwy fod yn briodol. Ambell waith fodd bynnag, gallai rhybudd cydymffurfio neu adfer fod yn fwy o gosb na chosb ariannol sefydlog, gan y gallai'r gost o gymryd camau i unioni'r difrod neu i sicrhau cydymffurfiaeth fod yn uwch na chost cosb ariannol, a gallai fod yn fwy o anogaeth felly i beidio â thorri rheol.
- 2.34 Opsiwn gwahanol i gosb ariannol neu erlyniad troseddol fyddai galluogi'r rheoleiddiwr i dderbyn EUT gan y ffermwr neu'r rheolwr tir. Byddai hwn yn gytundeb rhwymo cyfreithiol yn lle'r gosb sifil neu droseddol a roddwyd yn wreiddiol gan y rheoleiddiwr. Fodd bynnag, ni fydd rheoleiddwyr yn cael mynnu neu ofyn i ffermwr neu reolwr tir gynnig EUT. Rhaid i'r ffermwr neu'r rheolwr tir ei gynnig o'i wirfodd. Nid oes gorfodaeth chwaith ar reoleiddiwr i dderbyn EUT os na fydd yn credu mai dyna fyddai'r opsiwn gorau i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir neu'r newid positif mewn ymddygiad.
- 2.35 Wrth gynnig EUT i reoleiddiwr, rhaid i ffermwr neu reolwr tir gynnig gwneud gwaith neu fesurau eraill a fydd yn adfer y niwed i'r amgylchedd. Y ffermwr neu'r rheolwr tir fydd yn talu am y gwaith hwnnw. Os nad yw'n bosibl adfer y niwed, gallai'r camau a gymerir sicrhau buddiannau cyfatebol neu wella'r amgylchedd. Gallai gynnwys cyfraniad at achos da amgylcheddol. Barn rheoleiddwyr a thrangwyddwyr yw bod EUT yn un o'r dulliau gorfodi mwyaf effeithiol. Er mai mater i'r rheoleiddiwr yw derbyn neu wrthod EUT, bydd gan ffermwr a rheolwr tir fwy o ymreolaeth ym mhroses yr EUT na phe bai'n gorfod dilyn gorchymyn rheoleiddiwr neu lys. Hefyd, bydd unrhyw gyfraniad ariannol a gynigir fel rhan o'r EUT yn cael ei ddefnyddio er lles yr amgylchedd lleol neu ehangach.

- 2.36 Fodd bynnag, ar gyfer y sancsiynau sifil a ddisgrifir uchod, mae'n bwysig bod y cosbau'n anogaeth effeithiol i sicrhau cydymffurfio. Ar gyfer y tramgwyddau mwyaf difrifol, lle achosir niwed difrifol, bydd dal gofyn cynnal erlyniad troseddol. Weithiau, pan fydd cyngor, arweiniad a sancsiynau sifil wedi methu â sicrhau newid positif yn yr ymddygiad, efallai mai erlyn fydd yr unig opsiwn i ddelio â thramgwyddo drosodd a thro.
- 2.37 Dangosir y drefn orfodi a gynigir yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Y drefn orfodi a gynigir



- 2.38 Mae'r ddwy enghraifft isod hefyd yn disgrifio sut y gallai'r sancsiynau hyn gael eu defnyddio i orfodi rheoliadau penodol:

Enghraifft 1: Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)

- 2.39 Byddai ffermwr neu reolwr tir sydd wedi neu wrthi'n cynnal gwelliannau amaethyddol ar laswelltir heb ei drin neu led-naturiol heb ganiatâd EIA, o dan rai amgylchiadau, yn cael Hysbysiad Stop fydd yn ei rwymo'n gyfreithiol i beidio â chynnal rhagor o waith. Yn dilyn asesiad ecolegol, byddai'r rheoleiddiwr yn pennu a oes gwerth ecolegol i'r tir ac a ddylid ei gadw o dan Reoliadau Asesu Effaith Rheoliadau (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017. Os asesir bod y tir o werth ecolegol arwyddocaol, byddai'n gymesur rhoi cosb ariannol newidiol fydd yn adlewyrchu difrifoldeb y niwed amgylcheddol ac unrhyw incwm a gafwyd. Fodd bynnag, bydd y ffermwr neu'r rheolwr tir yn rhydd i gynnig EUT yn lle'r gosb ariannol newidiol, gan esbonio sut y byddai'n unioni'r niwed i'r amgylchedd. Byddai'r rheoleiddiwr wedyn yn asesu pa ddull fyddai'n delio orau â'r tramgwydd.

Enghraifft 2: Rheoli TB

- 2.40 Os bydd ffermwr neu reolwr tir yn hwyr yn cynnal ei brawf TB, ni fyddai'n gymesur rhoi cosb droseddol iddo. Er hynny, rydym am sicrhau bod digon o anogaeth i'r ffermwr beidio â thorri'r rheolau. Mae cosbau sefydlog Trawsgydymffurfio wedi bod yn sbardun i hawlwyd taliadau'r PAC i gydymffurfio â phrofion TB. Byddai sancsiynau sifil yn cadw'r anogaeth honno ac yn sicrhau trefn orfodi deg ar gyfer pob ffermwr, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn hawlio. Byddai angen cefnogi trefn o'r fath trwy sicrhau bod ffermwyr yn deall beth sydd ei angen iddynt ei wneud i gydymffurfio, er enghraifft erbyn pryd y mae'n rhaid cynnal y prawf TB a beth fydd canlyniadau peidio â chydymffurfio. Os na fydd y ffermwr yn cydymffurfio, yn ein barn ni, byddai'n briodol rhoi cosb ariannol, fel cosb ariannol sefydlog neu newidiol.

Ystyriaethau eraill wrth orfodi

- 2.41 Er ein bod wedi disgrifio'r egwyddorion bras ar gyfer defnyddio sancsiynau sifil, bydd angen eu hystyried ymhellach. Bydd angen datblygu'r cynigion ar y cyd â ffermwyr, rheolwyr tir a rheoleiddwyr. Bydd angen ystyried y canlynol, ymhlith eraill:

- Cyfnod pontio ar gyfer cyflwyno sancsiynau sifil;
- Wrth roi'r sancsiynau, sut i wahaniaethu rhwng tramgwydd cyntaf ac ail dramgwydd, maint y busnes a faint o niwed a achoswyd;
- Mae rhai gweithgareddau wedi'u gwahardd eisoes o dan y rheoliadau presennol. Mae angen inni ystyried a fyddai'n briodol gwahardd gweithgareddau eraill yr ydym yn gwybod eu bod yn newidiol neu sydd â'r potensial i fod yn newidiol i'r amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid;
- Sut gallwn fod yn sicr bod gwerth ariannol y gosb yn gymesur a'i bod hefyd yn anogaeth i ffermwyr rhag torri rheolau;
- A oes angen newidiadau i wella'r ffordd y mae sancsiynau sifil yn cael eu gweinyddu;
- Sut gallwn sicrhau bod proses apelio briodol a chymesur yn bod, sy'n seiliedig ar yr egwyddor o fod yn annibynnol o'r rheoleiddiwr a'r Llywodraeth ac sy'n deg a chyson. Byddai angen arbenigwyr ar y broses apelio, gan ddibynnu ar y pwnc dan sylw;
- Sut gallwn sicrhau bod y rheoleiddwyr yn defnyddio'r trefniadau gorfodi gwahanol mewn ffordd gyson;
- Sut mae cyfleu'n glir beth fydd canlyniadau peidio â chydymffurfio wrth ffermwyr a rheolwyr tir.

- 2.42 Bydd rhoi'r hyblygrwydd i reoleiddwyr allu defnyddio sancsiynau sifil yn ogystal â'r rhai troseddol yn caniatáu iddynt ddefnyddio'r gosb fwyaf priodol ym mhob achos. Bydd hynny'n osgoi gwneud y tramgwyddwr yn droseddwr pan fydd modd, gan gadw'r gosb droseddol fel dewis olaf ar gyfer tramgwyddau difrifol neu dramgwyddo drosodd a thro. Bydd y sancsiynau newydd hyn yn canolbwyntio ar y canlyniad gan roi mwy o opsiynau ar gyfer ymateb yn gymesur i dramgwydd tra bod hefyd yn fwy effeithiol i'w gweinyddu.
- 2.43 Bydd gofyn i ni sicrhau bod yr holl reoliadau'n cael eu gorfodi'n gyson i bob ffermwr, waeth a ydynt yn hawlio o'r cynllun neu beidio. Bydd yn bwysig sicrhau bod ffermwyr a rheolwyr tir yn deall y berthynas rhwng y gyfraith a'r cynllun. Byddwn yn esbonio'n ystyriaethau am hyn yn fanylach yn Adran 3.

Cwestiwn ymgynghori

- 3 Beth yw'ch barn am y cynigion ynghylch sancsiynau sifil er mwyn gallu gorfodi'r rheoliadau mewn ffordd gymesur? A oes ystyriaethau eraill sydd eu hangen?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posib sy'n gysylltiedig â'r ystyriaethau hyn.

Adran 3

Rheoli Tir yn Gynaliadwy: Polisi a Chymorth yn y Dyfodol

Crynodeb

- 2.44 Ers yr Ail Ryfel Byd, mae un llywodraeth ar ôl y llall wedi cefnogi polisïau sydd wedi cynyddu cynhyrchiant ffermydd a darparu bwyd fforddiadwy. Mae'r polisïau wedi esgor ar fwy o gynnyrch fesul hectar ond mae'r gymdeithas ehangach wedi gorfod talu'r pris am y cynnydd hwn. Mae effeithiau rhai mathau o ffermio dwys ar fioamrywiaeth ffermdir, ansawdd aer a dŵr, iechyd y cyhoedd a'r hinsawdd yn cael eu gweld fwyfwy yn broblemau y mae angen delio â nhw ar fyrder.
- 2.45 O ganlyniad, mae'r sector amaethyddol ar reng flaen yr argyfwng hinsoddol ac ecolegol. Ynghyd â'r amodau masnachu anoddach a fydd yn wynebu'r DU ar ôl y cyfnod pontio, mae'r heriau hyn yn gofyn am ddull newydd o helpu ffermwr fydd yn eu cysylltu'n uniongyrchol â'r newid y bydd yn ei ddarparu.
- 2.46 Mae aruthredd yr heriau economaidd ac amgylcheddol sy'n ein hwynebu, ynghyd â'r angen i weithredu ar fyrder yn golygu nad yw cadw'r status quo i amaethyddiaeth bellach yn ddewis. Rhaid i ni weithredu nawr i alinio polisi a chymorth amaethyddol y dyfodol â'r fframwaith polisi sy'n seiliedig ar Reoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a ddisgrifir yn *'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir'*. Bydd hynny'n ein galluogi i ymateb i'r heriau hyn gyda'n gilydd.
- 2.47 Mae gan SLM y potensial i roi amrywiaeth o fanteision – economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol – i fusnesau ffermio, y sector amaethyddol ehangach a'r cyhoedd. Derbyniodd y modd yma a'r fframwaith polisi gefnogaeth eang gan ymatebwyr. Trwy gyflwyno Bil yn sesiwn nesa'r Senedd, byddwn yn gallu newid y cymorth mewn ffordd a fydd yn cynnig dyfodol cynaliadwy i ffermwyr a chymunedau gwledig.
- 2.48 Rydym yn cynnig y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau fydd yn sefydlu SLM fel prif egwyddor ein polisi amaeth, gan gynnwys cymorth yn y dyfodol. Bydd hynny'n cryfhau busnesau ffermio trwy sicrhau ffrwd incwm na fyddai'n dibynnu ar farchnadoedd cynnyrch amaethyddol. Bydd hefyd yn cynnig ffordd o wneud cynnyrch amaethyddol Cymru'n unigryw yn y farchnad (trwy allu cynnig prawf eu bod yn gynaliadwy) a dylai leihau dibyniaeth busnesau ffermio ar fewnbynnau allanol (a thrwy hynny eu costau) trwy ffocws ar reoli adnoddau ar sail economi gylchol.
- 2.49 Rydym yn cydnabod bod llawer math o gymorth neu gefnogaeth. Gall olygu darparu ffrwd incwm, buddsoddi mewn seilwaith, datblygu sgiliau a hyfforddiant, ymchwil, a datblygu marchnadoedd. Rydym yn cynnig dod â'r BPS a chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill yr UE i ben a rhoi yn eu lle un cynllun cymorth uniongyrchol (y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) ar gyfer ffermio. Y cynllun hwn fydd yn darparu cyngor ac arweiniad i ffermwyr a busnesau

ffermio. Cynigir cyllid ar wahân ar gyfer datblygu'r diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi y tu hwnt i gât y fferm. Disgrifir hyn yn Adran 4.

- 2.50 Dylai'r cynllun hwn wobrwyo ffermwyr yn briodol am gynhyrchu nwyddau nad oes marchnad iddynt (gwella pridd, aer glân, dŵr glân, cynyddu bioamrywiaeth, gweithredu i arafu twymo'r ddaear) ar lefelau uwch na'r hyn a bennir gan reoliadau, hynny trwy reoli tir mewn ffordd gynaliadwy. Rydym yn cydnabod bod elfen economaidd bwysig i gynaliadwyedd hefyd, ac felly byddwn yn cynnig cyngor ac arweiniad i ffermwyr allu manteisio ar farchnadoedd newydd a chyfleoedd i arallgyfeirio o fewn cyd-destun Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Rydym am i ffermwyr weld y cynigion hyn fel ffordd i gryfhau'u busnesau.
- 2.51 Ein pwrpas trwy ddarparu'r cymorth hwn fydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy er mwyn creu sector ffermio cynaliadwy yng Nghymru er lles cenedlaethau'r dyfodol. Drwy hynny byddwn yn gwneud cyfraniad mawr at sicrhau cadernid economaidd tymor hir y sector a galluogi ffermio i chwarae ei ran i sicrhau'r canlyniadau ehangach a ddisgrifir uchod.

Rheoli Tir yn Gynaliadwy

- 2.52 Yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, gwnaethom ddiffinio SLM fel a ganlyn:
- “Defnyddio adnoddau tir, gan gynnwys pridd, dŵr, anifeiliaid a phlanhigion, i gynhyrchu nwyddau i ddiwallu anghenion cyfnewidiol pobl gan ddiogelu yr un pryd botensial tymor hir yr adnoddau hyn a chynnal a gwella'u manteision amgylcheddol”.*
- 2.53 Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol arferion rheoli tir yn cael eu cynnal er lles tymor hir pobl Cymru. Mae hyn yn adewyrchu'r ymrwymadau a roddwyd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fe welwch fanylion pellach sut y mae'n cynigion yn gyson â'r ddwy Ddeddf yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*.
- 2.54 Mae'r agwedd holistig hon at bolisi a chymorth y dyfodol yn annog ffermwyr i gynhyrchu nwyddau (bwyd a phren er enghraifft) mewn ffordd na fydd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd nac ar yr adnoddau a ddefnyddir i gynhyrchu'r nwyddau hynny. At hynny, os yw'r ffordd y mae'r nwyddau hynny'n cael eu cynhyrchu yn arwain at greu mwy o'r adnoddau hynny, mae'n deg felly bod ffermwyr yn cael eu talu am y gwelliannau hynny. Fel hynny, gallwn oll barhau i elwa ar gynnyrch ffermydd yn ogystal â'r gwelliannau i'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, tra bo'r ffermwyr yn elwa ar werthu'u nwyddau a chael eu talu am eu cynhyrchu mewn ffordd sy'n gynaliadwy.
- 2.55 Rydym am weld busnesau cadarnach a mwy llwyddiannus, sy'n gallu cystadlu mewn byd sy'n newid. Mae hyn yn golygu y dylai busnesau ffermio fabwysiadu SLM (gyda chefnogaeth cyngor ac arian) i wneud eu model

busnes yn fwy effeithiol yn unol â gallu naturiol eu tir, i leihau eu dibyniaeth ar fewnbynnau allanol ac i fanteisio ar y cymorth ariannol rydym yn ei ddarparu i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol.

- 2.56 Rydym wedi dod i'r casgliad y byddwn gyda'n gilydd, trwy fabwysiadu a chynnal SLM fel nod ein polisi a'n cymorth amaethyddol yn y dyfodol, yn gallu ymateb i'r heriau hyn. Rhaid i bob cymorth amaethyddol (arian a chynghor) a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ein helpu i Reoli Tir yn Gynaliadwy.
- 2.57 Yn *Brexit a'n Tir*, gwnaethom gynnig dau gynllun – un i gefnogi gwelliannau i fusnesau a'r llall i roi cymorth i wella'r amgylchedd. Roedd y rhanddeiliaid yn wrthwynebus i'r dull dau gynllun, ac yn cefnogi datblygu un cynllun a fyddai'n cynnwys cadernid economaidd a nwyddau cyhoeddus.
- 2.58 O ganlyniad, gwelwyd yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* ein cynlluniau ar gyfer sector ffermio cynhyrchol a chynaliadwy a fyddai'n cefnogi ffermwyr i sicrhau canlyniadau cymdeithasol ehangach o reoli tir law yn llaw â darparu cynnyrch o ansawdd uchel wedi'i gynhyrchu at safonau uchel o ran yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid.
- 2.59 Gallai Rheoli Tir yn Gynaliadwy esgor ar amrywiaeth o fanteision – i ffermydd, y sector amaethyddol ehangach, y cyhoedd ac i'r amgylchedd.
- 2.60 Er mwyn sicrhau'r manteision hyn, rydym yn cynnig cyfnewid BPS a chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill yr UE gyda Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC). Bydd yr CFfC yn gynllun gwella busnes, cynyddu dygnwch tymor hir busnesau fferm trwy wobrwyo ffermwyr am ddarparu canlyniadau i gymdeithas wrth, ac yn sgil, cynhyrchu bwyd. Ni fydd y ffrwd incwm newydd hwn yn dibynnu ar y farchnad a dylai wneud y fferm yn fwy abl i ddygydd mod â marchnadoedd a fydd yn y dyfodol o bosibl yn fwy anwadal. Dylai'r CFfC wobrwyo ffermwyr yn briodol am gynhyrchu canlyniadau (pridd iachach, aer glân, dŵr glân, bioamrywiaeth gyfoethocach, camau i leihau twymo'r ddaear) ar lefel uwch na'r hyn y gofynnir amdani gan y rheoliadau, trwy ac yn sgil cynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy. Bydd gofyn inni ystyried y cyfleoedd gwahanol sy'n bod i sicrhau'r canlyniadau hyn ar bob fferm wrth iddi ymuno â'r cynllun. Bydd hynny'n ddiffinio pa gamau sydd eu hangen i wneud y busnes fferm hwnnw'n gynaliadwy. Dyna pam y gwnaethom ddweud yn ein hymgyngoriad blaenorol bod angen cynghor ac arweiniad manwl ar bob fferm sy'n ymuno â'r cynllun (yr Arolwg o Gynaliadwyedd y Fferm). Yn ein barn ni, bydd yr arolwg cychwynnol hwn mor bwysig i lwyddiant, rhaid ei wneud yn elfen orfodol i gael ymuno â'r cynllun.
- 2.61 Trwy Reoli Tir yn Gynaliadwy trwy'r CFfC, gellir cynhyrchu cynnyrch amaethyddol yn gynaliadwy mewn ffordd a fydd yr un pryd yn esgor ar y canlyniadau amgylcheddol sydd eu hangen arnom wrth reoli'r tir. Gallwn ddisgwyl y canlyniadau hyn trwy gyfuniad o newid arferion ffermio, gwella seilwaith a newid defnydd tir. Byddwn hefyd yn edrych ar ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol trwy gefnogi'r diwydiant ehangach a'r gadwyn

gyflenwi sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynnyrch cynradd, cyn belled nad yw'r gefnogaeth honno'n tanseilio'r gallu i Reoli Tir yn Gynaliadwy ar lefel y fferm.

- 2.62 Yn ein barn, er budd pawb, dylai Llywodraeth Cymru roi cymhellion i ffermwyr gynhyrchu'r nwyddau hyn ar ran cymdeithas. Mae ein cynigion i wobrwyo ffermwyr a rheolwyr tir felly'n seiliedig ar eu talu am ganlyniadau nad yw'r farchnad yn eu talu am eu cynhyrchu. Mae hyn yn adlewyrchu'r contract economaidd sydd gennym yn ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi.
- 2.63 Bwriedir i'r CFFC wobrwyo ffermwyr am sicrhau canlyniadau yn hytrach na'u digolledu am gost eu mewnbynnau. Bydd hyn yn cynnig ffrwd incwm na fydd ar warthaf marchnad anwadal ac yn sicrhau canlyniadau na all mewnforion eu darparu yn ein lle. Rydym yn cynnig ein bod yn cefnu ar y cynlluniau amaeth-amgylcheddol traddodiadol oedd yn digolledu ffermwyr am yr incwm a gollwyd ac am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd. Rydym am i ffermwyr weld costau bodloni gofynion y cynllun newydd fel buddsoddiad er mwyn cael elwa ar y taliadau a delir am sicrhau'r canlyniadau. Fel rhan o'n gwaith dadanosddi economaidd, byddwn yn cynnal dadansoddiad cost a budd i benderfynu ar y ffordd orau o gymell ffermwyr i wneud y gwaith ychwanegol sydd ei angen i sicrhau'r canlyniadau rydym am eu gweld. Rydym am ddatblygu ymhellach yr opsiwn neu'r opsiynau fydd yn creu'r gymhareb orau rhwng cost a budd fel rhan o'r cynllun arfaethedig.
- 2.64 Trwy ddiogelu'r canlyniadau amgylcheddol ac eraill y mae ffermwyr a'r gymdeithas ehangach yn dibynnu arnyn nhw – pridd gwell, dŵr glân, aer glân ac amgylchedd cydnerth a chyfoethocach ei fioamrywiaeth, bydd y cenedlaethau nesaf o ffermwyr yn cael parhau i reoli'u tir. Bydd ein cynigion yn ei gwneud yn bosibl i'r sector amaeth ddatgarboneiddio a chynyddu dalfa garbon Cymru i gefnogi'r targed sero-net erbyn 2050.
- 2.65 Rydym yn cydnabod y bydd y blynyddoedd nesaf yn rhai anodd i ffermwyr. Fel rhan o'r fframwaith polisi a'r cynllun a ddisgrifir uchod byddwn yn cynnig cyngor ac arweiniad hefyd ar sut i wella busnesau er mwyn i ffermwyr allu manteisio ar farchnadoedd newydd ac ar gyfleoedd i arallgyfeirio sy'n gyson ag SLM. Byddwn yn helpu ffermwyr i fod yn gynhyrchiol a chynaliadwy ac i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau naturiol gan wneud y cynhyrchu cynaliadwy hwnnw yn fwy effeithiol o fewn terfynau'r fframwaith SLM.
- 2.66 Trwy fonitro a gwerthuso effeithiol, byddwn yn gallu profi'r cynaliadwyedd hwn gan roi'r fantais gystadleuol sydd ei hangen ar amaethyddiaeth Cymru iddi allu ymateb i faint y newid sy'n debygol yn sgil Brexit a chytundebau masnach yn y dyfodol. Trwy allu profi cynaliadwyedd tarddiad y bwyd a gynhyrchir yma yng Nghymru, byddwn yn gallu datblygu brand clir a marchnad ar gyfer cynnyrch o Gymru.
- 2.67 Rydym yn cynnig datblygu prosesau i sicrhau bod asesiadau cychwynnol o gynaliadwyedd ffermydd a bod gwaith monitro ac adroddiadau ar y cynllun yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen i brofi bod cynnyrch y ffermydd yn y cynllun yn gynaliadwy. Rydym yn cynnig pennu targedau tymor hir ar gyfer pob

canlyniad a datblygu dull monitro a gwerthuso fydd yn dangos faint y bydd pob canlyniad wedi'i gynhyrchu bob blwyddyn, gan ddatblygu mesurau procsi credadwy lle bo'u hangen. O wneud hynny, gallwn gaboli a datblygu'n polisïau wrth eu rhoi ar waith yn ogystal â pharatoi adroddiad i'r Senedd ar y canlyniadau.

- 2.68 Mae pwysigrwydd diwylliannol tirweddau a nodweddion archeolegol a hanesyddol yn ychwanegu haen arall at Reoli Tir yn Gynaliadwy a'r hyn y mae'n olygu. Er ei bod yn anorfod bod tirweddau'n newid dros amser trwy brosesau naturiol, ni ddylai'r newid a ddaw trwy Reoli Tir yn Gynaliadwy danseilio gwerth diwylliannol nodweddion unigol na chyd-destun y dirwedd o'u cwmpas.
- 2.69 Mae'n bwysig bod ffermwyr a rheolwyr tir yn deall y berthynas rhwng y cynllun a'r newidiadau i'r drefn reoleiddio. Byddem yn disgwyl i bob ffermwr sy'n gwneud cais i ymuno â'r cynllun gydymffurfio â'r gyfraith a bydd parhau i gydymffurfio'n hanfodol er mwyn medru cyfiawnhau ei dalu am y canlyniadau amgylcheddol. Bydd angen sicrhau bod trefn orfodi'r gyfraith yn gyson i bob ffermwr, p'un a yw'n elwa o'r cynllun neu beidio, ond bydd gofyn inni ystyried yn ofalus sut y gallai peidio â chydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol unrhyw bryd dros gyfnod y cynllun effeithio ar daliadau ffermwyr. Byddwn yn ystyried hyn eto wrth ddylunio manylion y cynllun gan ymgynghori arno bryd hynny.

Ein Cynigion

- 2.70 Gwneud darpariaeth yn y Bil i sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel prif amcan polisi amaethyddol yn y dyfodol, gan gynnwys cymorth yn y dyfodol.
- 2.71 Rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu, gweinyddu a chau cynllun neu gynlluniau fydd yn cefnogi ac yn ei gwneud yn bosibl Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Ym mhob achos, bydd y cymorth yn darparu 'ychwanegedd' h.y. canlyniadau sy'n ychwanegol at y rheini y gellid yn rhesymol ddisgwyl i'r rheoliadau cyfredol yn unig eu darparu.
- 2.72 Rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud datganiad blynyddol i'r Senedd ar y gyllideb cymorth uniongyrchol i ffermwyr. Dylai'r datganiad gynnwys amcangyfrif o'r canlyniadau fydd wedi'u sicrhau'r flwyddyn honno ynghyd â tharged o faint o bob canlyniad fydd yn cael ei gyflawni.
- 2.73 Rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Senedd ar effaith yr hyn a wariwyd ar gymorth uniongyrchol i ffermwyr.
- 2.74 Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ariannu'r canlynol i gefnogi egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy:
- I alluogi a chefnogi datblygiad hirdymor busnesau fferm a chadwyni cyflenwi sylfaenol yn gadarnach yn sgil darparu mwy o ganlyniadau trwy reoli tir yn gynaliadwy law yn llaw â chynhyrchu bwyd. Bydd hynny'n

cynnwys cefnogaeth i ffermwyr gydweithredu â'i gilydd ac ag eraill i Reoli Tir yn Gynaliadwy.

- I gynyddu darpariaeth safonau iechyd a lles anifeiliaid uwch na'r llinell sylfaenol gyfreithiol. Un o brif egwyddorion sylfaenol Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yw bod 'atal clwyf yn well na'i wella' o ran lleihau clefydau anifeiliaid a'u heffeithiau cysylltiedig ar eu lles. Byddwn yn integreiddio hyn yn ein cefnogaeth a'n polisiau yn y dyfodol. Mae safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel, fel rhan o SLM, yn hanfodol i allu gwahaniaethu cynnyrch yn y dyfodol;
- I ddarparu cyllid partneriaeth ar gyfer cydweithio â'r byd academiaidd a rhanddeiliaid eraill fel y sector preifat a chyrff ardollau i sbarduno datblygu a mabwysiadu arloesedd a throsoglwyddo gwybodaeth i helpu i roi egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar waith;
- I roi'r cyngor, hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol parhaus angenrheidiol i ffermwyr gyda golwg ar roi egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar waith;
- I alluogi a chefnogi sector amaeth Cymru i ddatgarboneiddio er mwyn cwrdd ag uchelgais sero-net Llywodraeth Cymru erbyn 2050. Bydd hynny'n cynnwys mesurau i gefnogi gwaith addasu er mwyn gwneud ffermwyr a rheolwyr tir yn fwy abl i wrthsefyll hinsawdd sy'n newid;
- I gynyddu lefel y carbon a ddelir trwy reoli tir (gan gynnwys creu a rheoli coetir, cyflwyno amaeth-goedwigaeth, adfer effeithiolrwydd mawnogydd, adfer morfeydd heli a chynyddu lefelau deunydd organig yn y pridd mewn tir amaethyddol wedi'i wella) i helpu Gweinidogion Cymru i wireddu uchelgais sero-net Llywodraeth Cymru erbyn 2050;
- I lleihau'n sylweddol neu atal yn llwyr yr amonia ac cholledion eraill a ollyngir gan ffermydd i aer a dŵr sy'n niweidio iechyd y cyhoedd a/neu sy'n niweidio cynefinoedd afonydd a chynefinoedd sensitif eraill;
- I gynyddu bioamrywiaeth ar ffermydd a chynefinoedd eraill, a chryfhau ecosystemau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth ac arferion amaethyddol gan gynnwys gwella parhaol i iechyd y pridd;
- I gefnogi mynediad priodol gan y cyhoedd at dir fferm at ddibenion hamdden ac addysgol.

2.75 Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o fod yn dryloyw ac i rôl ddilys y Senedd wrth graffu ar waith Llywodraeth Cymru. Lle bo angen, darperir manylion pellach mewn is-ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau a fydd gan fwyaf yn destun ymgynghori priodol. Bydd hynny'n caniatáu i aelodau'r Senedd graffu ar y cynigion.

Cyngor ac Arweiniad

- 2.76 Yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, gwnaethom nodi cynigion ar gyfer dwy ffordd o ddarparu cyngor ac arweiniad. Byddwn am roi asesiad cychwynnol i ffermwyr o gynaliadwyedd presennol y fferm a'r busnes ffermio. Gallwn wneud hynny er enghraifft trwy edrych ar ôl troed carbon y fferm a'r potensial i'w newid, a rhoi cyngor ar y ffordd fwyaf llwyddiannus o Reoli Tir yn Gynaliadwy ar y fferm. Drwy hynny, gallwn gytuno gyda'r ffermwr ar gamau gweithredu a sut i'w mesur. Byddwn yn datblygu arferion gorau'r gwasanaethau cynghori presennol – er enghraifft Cyswllt Ffermio a rheolwyr contractau Glastir – i ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr a thymor hir i ffermwyr.
- 2.77 Mae hyn yn adlewyrchu'r heriau economaidd ac amgylcheddol tymor hir fydd yn wynebu amaethyddiaeth yn y dyfodol. Credwn y dylai cyngor gael ei weld fel buddsoddiad yng ngallu ffermwyr yn hytrach na chost i'r cynllun a byddwn yn parhau i ddatblygu a chydweithio â rhanddeiliaid ar ein cynigion ar gyfer y dyfodol.
- 2.78 Byddwn yn cefnogi ffermwyr i gyflwyno technolegau newydd mewn ffyrdd a fydd yn sicrhau'r canlyniadau rydym am i SLM eu darparu. Yn ogystal â rhoi cyngor a chymorth uniongyrchol, byddwn yn cydweithio â'r byd academiaidd a rhanddeiliaid eraill i sbarduno arloesedd ym mhob sector amaethyddol gan gynnwys rheoli coetir fferm. Bydd hyn yn bwysig mewn meysydd fel rheoli data, ffermio manwl, datblygu ffyrdd mwy effeithiol o leihau allyriadau cig coch (gan gynnwys trwy ddefnyddio genomeg), rheoli maethynnau (gan gynnwys defnyddio llai o wrtaith artiffisial) a defnyddio llai o ynni.
- 2.79 Er enghraifft, mae ffermio manwl yn ffordd gynyddol bwysig o wneud busnesau ffermio'n fwy cadarn. Mae'n cynnig ffordd i ffermwyr gynyddu'u cynhyrchiant gan leihau mewnbynnau a chostau allanol. Mae angen i ffermio manwl ddod yn rhan annatod o bob agwedd ar ffermio trwy ddefnyddio geneteg well, targedu mewnbynnau'n well a chasglu a defnyddio data i wneud y busnes yn fwy effeithiol. O ddefnyddio technoleg newydd, rhaid sicrhau bod gan ffermwyr y sgiliau a'r hyfforddiant iawn i'w defnyddio. Bydd gofyn i ni weithio'n glos yn y dyfodol ag academia i wneud yn siŵr bod ffermwyr yn cael y cyfle i ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus. Yn ein barn ni, trwy weithio fel hyn, yn ogystal â gwneud busnes y fferm yn fwy effeithiol, byddwn yn cyfrannu at sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol ehangach y ceisir eu cael trwy Reoli Tir yn Gynaliadwy.

Cwestiwn ymgynghori

- 4 Beth yw'ch barn am y dibenion a gynigir ar gyfer talu ffermwyr i SLM? A oes dibenion eraill yn eich barn chi sydd angen eu hystyried?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Adran 4

Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi: Cymorth yn y Dyfodol

Crynodeb

- 2.80 Yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, gwnaethom nodi'n cynigion ar gyfer helpu'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach. Rydym yn cynnig y dylai'r rhan fwyaf o'r cymorth ariannol (h.y. yr hyn fydd yn cymryd lle'r BPS a'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol) fynd i ffermwyr trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy rydym yn ei gynnig. Ond ambell waith, bydd angen i ni hefyd helpu'r diwydiant ehangach a'r gadwyn cyflenwi bwyd y tu hwnt i gât y fferm.
- 2.81 Gall diwydiant bwyd a diod Cymreig ffyniannus greu'r galw am gynnyrch cynradd Cymru. Rydym yn cynnig cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach cyn belled â bod hynny'n cefnogi canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac o fudd yn y pen draw i ffermwyr Cymru. Rydym felly'n cynnig y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau fydd yn ei gwneud yn bosibl darparu'r cymorth hwnnw.

Y Ddadi dros Newid

- 2.82 Hanfod y gefnogaeth i ddatblygu cefn gwlad yw cyfrannu at ddatblygu economïau a sectorau gwledig er mwyn eu cryfhau a'u gwneud yn fwy cystadleuol ac arloesol. Ymhlith amcanion y cymorth hwn y mae:
- Cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
 - Cefnogi'r diwydiant bwyd amaeth ehangach a datblygu'r gadwyn gyflenwi y tu hwnt i gât y fferm;
 - Helpu cefn gwlad anamaethyddol i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd drwy fesurau addasu;
 - Sicrhau bod economïau a chymunedau gwledig tiriogaethau gwahanol yn cael eu datblygu'n gytbwys, gan gynnwys creu a chynnal swyddi.
- 2.83 Ar hyn o bryd, daw'r arian ar gyfer datblygu cefn gwlad trwy Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 sy'n cael ei chyd-gyllido gan yr UE a Llywodraeth Cymru tan 2023. O dan amodau'r Cytundeb Ymadael, cyfraith yr UE sy'n parhau i reoli'r rhaglenni tan y daw'r rhaglen neu'r ymrwymiad i ben. Fel gwlad sy'n ymadael, bydd yn rhaid i Lywodraeth y DU negodi 'mesurau technegol' i addasu unrhyw rai o ofynion yr UE. Yr Awdurdod Rheoli fydd yn rheoli hyn gan gydweithio'n glos â Taliadau Gwledig Cymru. Ceir llawer o ofynion

adrodd yn Rheoliadau'r UE, gyda Phwyllgor Rheoli'r Rhaglen yn ben ar y cyfan.

- 2.84 Yn ogystal â Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE 2014-2020, rydym wrthi'n ystyried sut i sefydlu trefniadau interim fydd yn cael eu cyllido gan y wlad hon i ategu ymrwymadau gwario'r UE. Bydd gofyn i'r trefniadau interim hyn bara o 2021-24, gan bontio'r cyfnod cyn y daw pwerau'r Bil i rym. Bydd y ddeddfwriaeth i gynnal y trefniadau interim hyn yn nodi cwmbras bras y rhaglen yn unol â'r amcanion uchod. Byddwn hefyd yn ystyried ein bwriadau o ran trefniadau'r dyfodol, gan gynnwys sut y byddem am gyllido unrhyw ymyriadau yn y farchnad amaethyddol yn y dyfodol.
- 2.85 Gan edrych y tu hwnt i'r cyfnod hwn, rydym yn cynnig cefnogi'r diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi cyn belled â bod y gefnogaeth honno'n parhau'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac o fudd yn y pen draw i ffermwyr Cymru. Er y bydd angen hyblygrwydd arnom i allu addasu'n cefnogaeth yn y dyfodol i adlewyrchu heriau newydd, tueddiadau cyfnewidiol a blaenoriaethau newydd i'r Llywodraeth, bydd ein blaenoriaeth ar gyfer cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi'n cynnwys:
- Gwellu apêl cynnyrch ffermwyr trwy ddarparu tystiolaeth effeithiol bod tir yn cael ei Reoli'n Gynaliadwy;
 - Annog mwy o alinio â'r farchnad trwy gefnogi ffermwyr i ddeall a chynhyrchu'r hyn y mae cwsmeriaid a'r gadwyn gyflenwi am ei brynu;
 - Nodi a chwalu rhwystrau yn y gadwyn gyflenwi trwy gefnogi ffermwyr i gynyddu swm a gwerth y cynnyrch o Gymru a ddefnyddir yn y gadwyn gyflenwi, yng Nghymru a thu hwnt;
 - Cwtogi'r cadwyni cyflenwi ar gyfer cynnyrch o Gymru trwy helpu i greu cadwyni cyflenwi lleol sy'n cadw gwerth y cynnyrch yng Nghymru;
 - Darparu ar gyfer mesurau ymyrryd yn y farchnad i helpu busnesau ffermio i ddygymod ag anwadalwch eithriadol neu fethiant yn y farchnad pe bai hynny'n digwydd.
- 2.86 Byddwn yn parhau i ystyried y ddadl dros gefnogi sectorau eraill os bydd hynny'n helpu i Reoli Tir yn Gynaliadwy, yn enwedig cefnogaeth i goedwigaeth a'r diwydiant bwyd ehangach.
- 2.87 Yn y dyfodol, byddwn yn disgwyl i unrhyw gynlluniau sy'n defnyddio arian domestig i:
- Ganolbwyntio ar sicrhau gwerth am arian a sicrhau canlyniadau mewn ffordd sy'n gyson â fframwaith ac egwyddorion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*;

- Feddu ar systemau gwerthuso cadarn, gan gynnwys system ar gyfer gwerthuso gwerth am arian ceisiadau am arian;
- Wneud defnydd llawn o gyfraniad rhanddeiliaid wrth ddatblygu a llunio polisi gan hefyd ymgymryd â herio a chraffu allanol digonol ar gynigion;
- Ddysgu gwersi o brofiad a gwerthusiadau blaenorol;
- Fod yn agored a thryloyw wrth ddyfarnu grantiau i sicrhau mynediad teg at grantiau.

Ein Cynigion

- 2.88 Rydym yn cynnig y dylai'r Bil roi'r pwerau i Weinidogion Cymru allu creu, gweinyddu a chau cynllun neu gynlluniau domestig mewn cysylltiad â datblygu gwledig a'r gadwyn cyflenwi bwyd amaeth ehangach fydd yn galluogi ac yn cefnogi parhad Rheoli Tir yn Gynaliadwy.
- 2.89 Rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud datganiad blynyddol i'r Senedd ar y gyllideb ar gyfer cefnogi datblygu gwledig. Dylai'r datganiad gynnwys amcangyfrif o'r canlyniadau fydd wedi'u sicrhau'r flwyddyn honno ynghyd â tharged o faint o bob canlyniad fydd yn cael ei gyflawni.
- 2.90 Rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Senedd ar effaith yr hyn a wariwyd ar gefnogi datblygu gwledig.
- 2.91 Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o fod yn dryloyw ac i rôl ddilys y Senedd wrth graffu ar waith Llywodraeth Cymru. Lle bo angen, darperir manylion pellach mewn is-ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau fydd gan fwyaf yn destun ymgynghori yn y ffordd arferol. Bydd hynny'n caniatáu i aelodau'r Senedd graffu ar y cynigion.

Cwestiwn ymgynghori

- 5 Beth yw'ch barn chi am y blaenoriaethau a gynigir ar gyfer cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Adran 5

Casglu a Rhannu Data

Crynodeb

- 2.92 Mae angen darpariaeth glir arnom i allu rhoi cefnogaeth i gasglu a phrosesu data'n well, gan gynnwys defnyddio technoleg newydd i symleiddio systemau. Bydd hwyluso mynediad i ddata a'i rhannu yn lleihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr ac yn gwneud y gwaith o fonitro rheoliadau a chynlluniau cymorth ariannol yn fwy effeithiol. Rydym am symleiddio'r gwaith casglu data a lleihau'r angen i gasglu data nifer o weithiau.
- 2.93 Rydym yn cynnig bod y Bil yn cynnwys pwerau i gasglu a rhannu data ar yr holl ffermydd a busnesau yn y gadwyn cyflenwi amaeth yng Nghymru. Mae'r adran hon yn edrych yn fanylach yr hyn y gellid ei wneud â'r data ac ar egwyddorion casglu a rhannu data.

Y Ddadi dros Newid

- 2.94 Dyma'r prif resymau dros gasglu data am amaethyddiaeth a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig yng Nghymru:
- Monitro cynlluniau cymorth ariannol;
 - Monitro bod holl ffermydd Cymru yn cydymffurfio â'r rheoliadau, waeth a ydyn nhw'n rhan o'r cynllun cymorth ariannol neu beidio;
 - Ymchwil a dadansoddi i fwydo polisi amaeth;
 - Cadw golwg ar y gadwyn cyflenwi bwyd amaeth a monitro tueddiadau cenedlaethol.
- 2.95 Daw'r pŵer presennol i gasglu a phrosesu data amaethyddol o nifer o ddarnau gwahanol o ddeddfwriaeth ddomestig a'r UE.

Monitro cynlluniau cymorth ariannol

- 2.96 Mae gennym lawer o wybodaeth eisoes am ffermydd a ffermwyr sy'n hawlio taliad y BPS; sy'n rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol; neu sy'n cadw da byw. Roedd gorfodaeth arnynt i ddarparu peth o'r data, fel cofnodion symud da byw; mae bod yn aelod o gynllun yn golygu darparu peth gwybodaeth (e.e. RPW Ar-lein) a chesglir peth mewn arolygon (e.e. Arolwg o Fusnesau Fferm).
- 2.97 Rheoliadau'r UE sydd yn bennaf wedi rheoli'r galw i gasglu data cynlluniau a pharatoi adroddiadau. Mae hi eisoes yn bosibl i gyrff cyhoeddus rannu data (gan gynnwys data personol) â'i gilydd at ddibenion penodol (fel y'u diffinnir gan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017). Ein nod ni fydd symleiddio'r prosesau casglu data a lleihau'r angen i gasglu data nifer o weithiau.

Monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau

- 2.98 Mae nifer o gyrff rheoleiddio, gan gynnwys yr Arolygiaeth Wledig, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Awdurdodau Lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn cadw golwg a yw ffermwyr yn cydymffurfio â rheoliadau amaethyddol yng Nghymru. Mae gan bob corff bwerau gwahanol i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â rheoliadau, gyda rhai o'r cyfrifoldebau hynny'n gorgyffwrdd. Gofynnir i ffermwyr ddarparu'r gwybodaeth tebyg i gyrff gwahanol, gan greu baich gweinyddol diangen i lenwi a chadw dogfennau. Mae archwiliadau ffermydd hefyd yn dreth ar adnoddau rheoleiddwyr ac yn gallu bod yn faich ar ffermwyr a rheolwyr tir. Felly mae angen gwelliannau i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol gyda chefnogaeth dulliau eraill i fonitro cydymffurfiaeth.
- 2.99 Yn adroddiad *Hwyluso'r Drefn 2011*¹³, ceir nifer o argymhellion ynghylch monitro a gwelwyd peth cynnydd ar hynny ers hynny. Er enghraifft, trwy alinio nifer o archwiliadau Trawsgydymffurfio a chyhoeddi'r canllaw '*Pan ddaw'r archwilydd*'. Ond mae ffactorau sy'n ein rhwystro rhag rhoi rhai o'r argymhellion hyn ar waith, megis trafferthion rhannu data'n effeithiol a chywir rhwng rheoleiddwyr.
- 2.100 Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith monitro ac archwilio o dydd i dydd yn canolbwyntio ar ffermydd sy'n rhan o gynlluniau o gronfa PAC yr UE. Ymateb adweithiol i amheuaeth o dramgwyddo yn aml yw'r archwiliadau o ffermwyr a rheolwyr tir nad ydynt yn rhan o'r cynlluniau hynny. Felly does dim cydbwysedd o ran monitro ledled Cymru.
- 2.101 Mae'n bwysig bod gan rheoleiddwyr fynediad at amrywiaeth o ddata er mwyn gallu monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol. Ceir ar hyn o bryd set o ddata sy'n nodi, at ddiben cynlluniau PAC yr UE, pwy sy'n berchen ar dir a sut y defnyddir y tir hwnnw. Ceir data hefyd am geidwaid da byw, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn hawlio cynlluniau PAC yr UE. Mae'r setiau data yma yn

¹³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/inline-documents/2018-11/120131workingsmarterreportcy.pdf>

angenrheidiol i alluogi rheoleiddwyr i groesgyfeirio'r delweddau lloeren a'r data er mwyn gwybod pwy sy'n berchen neu'n ei reoli y tir. Fodd bynnag, prin yw'r data sydd ar gael am ffermwyr a rheolwyr tir nad ydynt yn hawlio cynlluniau'r PAC neu'n cadw da byw. Mae hyn yn cyfyngu ar allu rheoleiddwyr i ddefnyddio data o bell i fonitro ffermwyr a rheolwyr tir yng Nghymru.

Ein cynigion

Casglu a phrosesu data'n well

2.102 Rydym am fod yn glir pa ddata sydd angen eu casglu a sut y byddwn yn eu defnyddio. Yr amcan yw gwneud y broses yn fwy effeithiol i ffermwyr, rheoleiddwyr a'r Llywodraeth a sicrhau bod gennym ddata cadarn am bob fferm yng Nghymru. Bydd y ddeddfwriaeth yn crisialu beth fydd pwrpas casglu a phrosesu'r data gan roi sail cyfreithiol amlwg a chlir sy'n parchu egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Dyma fydd prif bwrpas ein cynnig ar gyfer casglu, rhannu a chysylltu data:

- Helpu pobl yn y gadwyn cyflenwi bwyd amaeth neu sy'n cynnal gweithgareddau amaethyddol i gynyddu cynhyrchiant, rheoli risgiau a dygymod ag anwadalwch y farchnad;
- Monitro a gwerthuso cynlluniau cymorth ariannol;
- Cynnal gwaith monitro wedi'i dargedu sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod ffermwyr yn cydymffurfio â rheoliadau;
- Sicrhau bod cadwyni cyflenwi bwyd amaeth neu weithgareddau amaethyddol yn dryloyw neu deg;
- Hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid a'u holrhain;
- Hyrwyddo iechyd planhigion;
- Lleihau effeithiau amgylcheddol andwyol gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi bwyd amaeth neu weithgareddau amaethyddol;
- Lleihau'r gwastraff a ddaw o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi bwyd amaeth neu weithgareddau amaethyddol;
- Monitro neu ddadansoddi marchnadoedd sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi bwyd amaeth neu weithgareddau amaethyddol;
- Cefnogi ymchwil a gwerthuso i fwydo polisi ar weithgareddau amaethyddol a chadwyni cyflenwi bwyd amaeth.

- 2.103 Rydym hefyd am sicrhau dilyniant trwy gadw'r gallu i brosesu data hanesyddol (sydd eisoes yn nwylo Llywodraeth Cymru) pan ddaw'r pwerau a roddir gan Ddeddf y DU i ben. Gwneir hyn gan gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018.
- 2.104 Trwy ganiatáu i reoleiddwyr, gwerthuswyr a rheolwyr cynlluniau rannu gwybodaeth rhyngddynt â'i gilydd, ceir cyfle i symleiddio'r system. Bydd gan hyn a'r cynnydd mewn technolegau casglu data wedi'u hawtomeiddio (e.e. Data Arsylwi'r Ddaear¹⁴) y potensial i leihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr a chael mwy o werth am arian o safbwynt y cynllun.
- 2.105 Bydd yn hanfodol chwalu'r rhwystrau i gymharu a rhannu data er mwyn lleihau'r baich monitro ar ffermwyr a rheolwyr tir. Byddai'n ei gwneud yn haws hefyd i reoleiddwyr allu cyfeirio achosion o dorri rheolau at y corff perthnasol iddo gymryd camau gorfodi.
- 2.106 Rydym yn cynnig y dylai gwybodaeth gael ei chasglu'n ganolog a'i rhannu rhwng reoleiddwyr, gan leihau nifer y dogfennau y bydd gofyn i ffermwyr eu llenwi.
- 2.107 Rydym am adeiladu ar y platfformau TGCh sydd gennym a nodi lle ceir gorgyffwrdd a'r potensial i rannu ac aildddefnyddio data. Mae'n hanfodol bod holl ffermydd Cymru'n dod o dan y drefn hon ac efallai y bydd yn rhaid gorfodi ymgeiswyr na fyddant yn rhan o'r cynllun i ddarparu data.
- 2.108 Gallai set ddata gael ei threfnu'n ganolog a'i rhannu â chyrrff cyhoeddus eraill sydd ar hyn o bryd yn gofyn i ffermwyr yn uniongyrchol am yr un data. Gellid cael y pŵer i wneud hyn o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017. Byddai angen is-ddeddfwriaeth i ddiffinio'r pwrpas. Byddai hynny'n sicrhau bod unrhyw brosesu data yn rhesymol a chymesur.
- 2.109 Her fawr i unrhyw drywydd a ddilynwn yw cysoni'r ffordd y bydd cyrff gwahanol yn casglu data a sicrhau ein bod parhau'n gyson â gweddill y DU er mwyn gallu dadansoddi'r data ar lefel y DU. Bydd angen gwneud hyn gyda chydweithrediad reoleiddwyr a ffermwyr a bydd angen cyflwyno deddfwriaeth newydd hefyd cyn cyflwyno'r CFfC newydd a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol arfaethedig i sicrhau bod y fformat yn gweithio i bawb.

¹⁴ Mae Arsylwi'r Ddaear yn casglu gwybodaeth am systemau ffisegol, cemegol a biolegol ar ffermdir heb ddod i gysylltiad ffisegol â nhw e.e. defnyddio data o loeren

Ystyriaethau heb gysylltiad â deddfwriaeth

Defnyddio technoleg yn well

- 2.110 Rydym yn bwriadu defnyddio datblygiadau technolegol i allu cadw golwg fwy effeithiol a yw ffermwyr yn cydymffurfio â rheoliadau a'r CFfC. Ymhlith y dechnoleg y gellir ei defnyddio i gasglu data at y dibenion monitro gwahanol hyn y mae ffotograffau â geotag, apiau ffonau symudol, synwryddion ar y fferm, Arsyliwr'r Ddaear a meddalwedd dadansoddi.
- 2.111 Mae'r cynnydd yn nhechnoleg Arsyliwr'r Ddaear yn golygu ein bod yn gallu cael delweddau o Gymru yn amlach (yn ddyddiol) ac yn llawer mwy manwl ac eglur nag o'r blaen. Gallai hynny ddarparu rheoleiddwyr a rheolwyr cynlluniau â lluniau clir a mwy cyfoes i fonitro cynlluniau a lefelau cydymffurfio yn fwy effeithiol. Bydd angen i ni wneud yn siŵr bod y data sydd gennym am ddefnydd tir a rheolwyr tir yn gywir er mwyn medru cefnogi'r dechnoleg.
- 2.112 Mewn rhai achosion, gall ddelweddau Arsyliwr'r Ddaear ddisodli'r angen i ymweld â fferm. Er enghraifft, pe bai rheoleiddwyr yn cael gwybod bod ffermwr o bosibl wedi tramgwyddo, gellid defnyddio'r delweddau dyddiol i weld a oes tramgwydd ac a oes angen ymweld â'r fferm.
- 2.113 Bydd ffermwyr fydd yn cymryd rhan mewn cynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol yn gorfod darparu ystod eang o ddata am fusnes y fferm a rhoi gwybodaeth yn rheolaidd am hynt y gwaith y cytunwyd i'w wneud. Mae potensial i awtomeiddio peth o'r gwaith casglu hwnnw trwy ddefnyddio data Arsyliwr'r Ddaear a/neu synwryddion ar y fferm a dulliau mwy confensiynol fel ffotograffau â geotag. Byddwn yn ymgynghori ar hyn ac yn eu hystyried yn fanwl wrth ddylunio'r cynllun.
- 2.114 Bydd gofyn i ni hefyd ystyried a fyddai mathau eraill ar ddata a gesglir gan ffermwyr a chynlluniau gwarant fferm yn gallu cael eu defnyddio i helpu'r gwaith monitro. O ddefnyddio technoleg a data'n well, rydym yn gobeithio lleihau'n dibyniaeth ar ymweliadau fferm at ddiben cydymffurfio â'r cynllun ac â rheoliadau.

Defnyddio data'n well

- 2.115 Yn ogystal â defnyddio technoleg, mae'n bwysig ein bod yn gallu dadansoddi, cymharu a rhannu ystod o ddata, gan gynnwys tueddiadau rhanbarthol a chenedlaethol, yn effeithiol.
- 2.116 O safbwynt rheoleiddio, rydym am weld dull cyson o fonitro bod holl ffermydd Cymru yn cydymffurfio â rheoliadau. Er bod rheoleiddwyr yn defnyddio ystod o ddata i asesu a oes perygl i fferm beidio â chydymffurfio, rydym am i reoleiddwyr allu cydweithio â'i gilydd rhag dyblygu gwaith monitro a gofynion

data. Rydym am wella'r defnydd o archwiliadau sy'n seiliedig ar risg er mwyn gallu monitro'n effeithiol y rheini sydd fwyaf tebygol o beidio â chydymffurfio. Rhaid cydbwysu hynny â'r angen i fonitro lefelau cydymffurfio mewn sampl cymesur o ffermydd yng Nghymru. Credwn y byddai hyn yn lleihau'r baich ar ffermydd ac yn sicrhau bod archwiliadau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

2.117 Bydd gofyn i ni ystyried y camau nesaf ar gyfer sut i gydnabod ffermwyr am gydymffurfio â'r rheoliadau. Gallai hynny gynnwys defnyddio gwybodaeth hunan-fonitro a'i rhannu â rheoleiddwyr.

2.118 O safbwynt y cynlluniau cymorth ariannol, ein bwriad yw galluogi ffermwyr i ddefnyddio'r data a gasglwn ar fferm i dracio cynnydd dros amser. Bydd ffermwyr drwy hynny yn gallu gweld effeithiau'r hyn y byddan nhw'n ei wneud o dan y cynllun, yn ogystal â chymharu eu perfformiad â ffermydd eraill tebyg. Mae meincnodi perfformiad yn erbyn ffermydd tebyg yn ffordd effeithiol o nodi pa feysydd sydd angen eu gwella. Hefyd, rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ganiatáu i ffermwyr ddefnyddio'r data a gesglir o fewn y cynllun i ddangos eu cynaliadwyedd i'r busnesau y maen nhw'n eu cyflenwi (e.e. archfarchnadoedd) ac i gynlluniau gwarant er mwyn gallu gostwng nifer archwiliadau fferm. Bydd busnesau fferm drwy hynny'n gallu dangos eu bod yn gynaliadwy heb orfod casglu rhagor o ddata.

Gwerthuso

2.119 Bydd yn bwysig gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun a'r fframwaith rheoleiddio arfaethedig. Bydd angen ystod o ddata i wybod pwy sy'n ymwneud a'r cynllun, beth yw effaith y cynllun a'r fframwaith rheoleiddio, ynghyd a'r effaith ar y sector ac ar yr amgylchedd. Bydd angen dangos i'r cyhoedd bod y cynllun yn werth yr arian a'r manteision y bydd yn eu darparu. Mae'n hanfodol hefyd cael gafael ar ddata ystadegol cywir a chyfoes i ddatblygu a gwerthuso polisi ar gyfer y sector amaethyddol a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig. Byddwn yn amlinellu strategaeth fonitro a gwerthuso gadarn er mwyn cloriannu effeithiau'r cynigion.

Cwestiynau ymgynghori

- 6 Beth yw'ch barn chi am y dibenion a gynigir ar gyfer casglu, rhannu a chysylltu data?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

- 7 Beth yw'ch barn chi am sefydlu cronfa ddata genedlaethol ar gyfer ffermydd a da byw?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Gan feddwl am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC):

- 8 O ran y cynllun arfaethedig, beth yw'ch barn chi am y cynigion i ganiatáu i ffermwyr ddefnyddio'r data rydym yn eu casglu ar y fferm i dracio'u cynnydd a dangos eu bod yn gynaliadwy?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Gan feddwl am gydymffurfio â'r rheoliadau:

- 9 Beth yw'ch barn am y cynigion ar gyfer monitro'n well y modd y cydymffurfir â'r rheoliadau?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

- 10 Beth yn eich barn chi sydd angen ei ystyried yn y dyfodol er mwyn i reoleiddwyr allu monitro rheoliadau'n effeithiol?

Adran 6

Coedwigaeth a Choetiroedd

Crynodeb

2.120 Rydym am weld gwelliant i'r rheoliadau a'r prosesau sy'n effeithio ar y ffordd y mae coetiroedd yn cael eu creu a'u rheoli yng Nghymru mewn tri maes allweddol:

- Er mwyn taclo argyfwng yr hinsawdd bydd angen creu mwy o goetir nag unrhyw bryd yn y 50 mlynedd diwethaf. Mae angen system syml, hawdd ei rhagweld a chymesur ar gyfer cymeradwyo cynlluniau coetir;
- Er bod cwmpo coed gan amlaf yn rhan o gynllun rheoli coetir cynaliadwy, mae rhai coed a choetiroedd mor amgylcheddol werthfawr, gallai eu torri'n anghyfreithlon fod yn arbennig o niweidiol. Rydym eisiau cael pwerau i ychwanegu amodau at drwyddedau cwmpo coed a sicrhau bod anogaeth effeithiol i atal cwmpo coed yn anghyfreithlon;
- Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn talu ffermwyr sy'n dewis darparu'r manteision a ddaw o blannu a rheoli coetir ar eu ffermydd. Rhaid hefyd barhau i gefnogi coetiroedd nad ydynt ar ffermydd.

2.121 Rydym yn cynnig y dylai Bil Amaethyddiaeth (Cymru) gynnwys darpariaethau fyddai'n caniatáu'r newidiadau hyn.

Y Ddadl dros Newid

Creu coetiroedd

2.122 Fel rhan o'n cynllun i ddelio ag argyfwng yr hinsawdd, rydym wedi gosod targed i greu o leiaf 2,000 hectar o goetir ychwanegol bob blwyddyn gan godi i 4,000 o hectarau'r flwyddyn cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd am weld mwy o goetiroedd yn dod o dan reolaeth.

2.123 Mae creu coetiroedd newydd yn ffordd bwysig o ddal a storio carbon. Mae'r pren a ddaw o'r coetir yn adnodd cynaliadwy a all gymryd lle deunydd carbon uchel gan helpu i ddatgarboneiddio sectorau fel adeiladu. Gall rheoli coetiroedd yn well esgor ar fanteision carbon hefyd, gan fod coetiroedd sy'n cael eu rheoli ac sydd â choed amrywiol eu hoed yn gallu storio mwy o garbon.

2.124 Nid oes digon o goetir yn cael ei blannu yng Nghymru ac mae cyfran rhy fach o'r coetir dan reolaeth. Yn 2018/19, dim ond 80 o hectarau o goetir newydd

gafodd ei greu yng Nghymru. Nid diffyg diddordeb mewn creu coetiroedd oedd y rheswm am hyn.

2.125 Mae sawl rhwystr sydd yn atal rhagor o gynnydd:

- Rhaid aros blynyddoedd mawr yn aml cyn y ceir elw o blannu coed, ac nid yw llawer o'r manteision cyhoeddus yn cael eu cydnabod;
- Teimlir bod cymhellion y Llywodraeth ar gyfer plannu coed yn gymhleth ac anodd eu rhagweld ac nid ydynt wedi'u cymhathu â chynlluniau cymorth eraill;
- Nid yw pawb yn deall manteision rheoli coetir bob amser;
- Teimlir bod y drefn reoleiddio'n gymhleth a'i bod yn gwneud plannu coed yn fwy anodd.

2.126 Bydd ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn mynd i'r afael â'r tair problem gyntaf. Bydd yn gwobrwyo pobl am greu coetir newydd ac am ddatblygu systemau amaeth-goedwigaeth ar y fferm. Mae'r broblem olaf yn adlewyrchu realiti'r broses orgymhleth ar gyfer cymeradwyo ac ariannu cynigion i greu coetiroedd sy'n ei gwneud hi'n anodd cynllunio a chynnal prosiectau coetir newydd.

2.127 Mae llawer o'r newidiadau sydd eu hangen i allu creu mwy o goetiroedd yn golygu newid prosesau yn hytrach na newid y gyfraith. Rydym am wella'r prosesau hyn ac ymchwilio i sut y gallwn roi cymorth uniongyrchol er mwyn i gynlluniau coetir allu cael eu dilysu cyn gwneud ceisiadau am arian. Ein bwriad yw ymgorffori'r newidiadau hyn yn ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

2.128 Rydym am ei gwneud hi'n gliriach i ffermwyr a pherchenogion tir eraill ble y caiff gwahanol fathau o goetir eu cymeradwyo. Rydym newydd roi arweiniad i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynghylch sut i roi egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy mewn perthynas â choedwigaeth ar waith. Rydym wedi dechrau ar y gwaith o ddiweddar a gwella Mapiau Cyfleoedd Creu Coetir, sy'n ceisio rhoi arweiniad clir i'r cyhoedd ynghylch pa ardaloedd sy'n isel eu sensitifrwydd o ran plannu coetir. Byddwn hefyd am symud at system fydd yn cydnabod perfformiad cynllunwyr coetir yn y gorffennol.

2.129 Er mwyn taclo argyfwng yr hinsawdd bydd angen creu mwy o goetir nag unrhyw bryd yn y 50 mlynedd diwethaf. Rydym am weld system syml, hawdd ei rhagweld a chymesur ar gyfer cymeradwyo cynlluniau.

Trwyddedau cwmpo coed a'r cosbau am dorri coed yn anghyfreithlon

- 2.130 Fel rheol, er mwyn cael torri coeden, bydd angen trwydded gwmpo gan CNC. O dan Ddeddf Goedwigaeth 1967, dim ond o dan amgylchiadau prin iawn y caiff CNC roi amodau ar y trwyddedau hyn. Nid oes gan CNC y pŵer i ddiddymu trwydded ar ôl ei rhoi na'i diwygio.
- 2.131 Fodd bynnag, ceir sefyllfaoedd pan fydd cwmpo coeden ond yn briodol o dan amodau penodol oherwydd y difrod amgylcheddol y gallai hynny ei achosi. Er enghraifft, gallai cwmpo coeden yn ystod cyfnod sensitif fel yn nhymor nythu neu fridio rhywogaeth a warchodir dorri Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Fel y mae pethau, nid oes gan CNC y pwerau i osod amodau arnynt.
- 2.132 Mae clefyd y coed ynn yn destun pryder cynyddol i reolwyr tir yn enwedig os yw'r coed yn tyfu mewn mannau risg uchel fel ar fin ffyrdd neu reilffyrdd neu wrth hawliau tramwy. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai cymaint â 97% o'r coed ynn gael eu heintio. Os oes perygl i fywyd, mae'n bwysig bod perchenogion tir yn mynd ati i reoli'r risg.
- 2.133 Er bod cwmpo coed gan amlaf yn bwysig fel rhan o gynllun rheoli coetir cynaliadwy, mae rhai coed a choetiroedd mor amgylcheddol werthfawr, gallai eu torri'n anghyfreithlon fod yn arbennig o niweidiol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn Coetiroedd Hynafol Lled-Naturiol (coetiroedd llydanddail sydd dros 400 o flynyddoedd oed). Mae'n bwysig bod digon o anogaeth i atal pobl rhag torri'r coed hyn.

Ariannu ar gyfer creu a rheoli coetiroedd yn y dyfodol

- 2.134 Rydym am i'm Cynllun Ffermio Cynaliadwy dalu ffermwyr sy'n dewis darparu'r manteision a ddaw o blannu a rheoli coetir ar eu ffermydd.
- 2.135 Bydd y cymorth hwn yn debygol o fod ar gael ar gyfer coetiroedd fydd, fel eu prif bwrpas, yn dal carbon, gwella cadernid cynefin a darparu amwynder. Byddwn yn cefnogi creu coetir hefyd i ddal allyriadau amonia a gronynnau fel PM2.5 lle dengys ein hastudiaethau mai plannu coed sy'n cynnig y gymhareb orau rhwng cost a budd o ran gwelliannau i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â gostwng yr allyriadau hyn.
- 2.136 Rydym yn glir hefyd bod yn rhaid parhau i gefnogi coetiroedd nad ydynt ar ffermydd. Law yn llaw â datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, byddwn yn ymchwilio i sut orau y gallwn helpu mathau eraill o goetir.
- 2.137 Fel ag y mae adroddiad Pwyllgor ar Newid Hinsawdd y DU ar ddefnydd tir yn nodi'n glir, ni fydd yn bosibl i blannu'r coed sydd ei angen gyda chymorth y sector cyhoeddus yn unig a bydd angen annog y sector preifat i fuddsoddi mewn coedwigaeth hefyd. Rydym am ystyried sut y gallai ffermwyr a rheolwyr tir eraill yng Nghymru fanteisio'n llawn ar y farchnad sy'n tyfu ar gyfer dal carbon trwy goed.

- 2.138 Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r Cod Carbon Coetir a ddatblygwyd i fod yn ddull dibynadwy a chyson o fesur faint o CO₂ yr amgylchedd y mae coed yn ei ddal, ac i roi unedau carbon wedi'u dilysu i berchenogion coetiroedd. Gellir gwerthu'r unedau carbon hyn i unigolion a sefydliadau sydd am niwtraleiddio eu hallyriadau eu hunain neu fuddsoddi mewn datgarboneiddio.
- 2.139 Byddwn yn cynnal ymgynghoriad flwyddyn nesaf ar sut i helpu pob math o berchennog tir yng Nghymru i fanteisio ar y marchnadoedd carbon ar gyfer plannu coed, gan gynnwys sut i ysgwyddo'r costau cyfalaf cychwynol a chostau cyngor.

Ein Cynigion

Creu coetir

- 2.140 Un agwedd bwysig ar y broses o greu coetir yw Rheoliadau EIA (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 sy'n pennu o dan ba amodau y mae angen caniatâd EIA gan CNC cyn plannu cynllun coetir. Ar ddiwedd cyfnod gweithredu'r UE, bydd Gweinidogion Cymru'n colli'r pwerau i ddiwygio'r ddeddfwriaeth hon. Rydym yn bwriadu cynnwys pwerau yn y Bil i sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cadw'r pŵer i adolygu a diwygio trothwyon yr EIA.
- 2.141 Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i newid rheoliadau'r EIA. Byddai angen is-ddeddfwriaeth i newid y trothwyon hyn a byddai'n rhaid ymgynghori ar wahân arnynt gyda thystiolaeth o effaith unrhyw newidiadau ar blannu coed ac ar fioamrywiaeth, cynefinoedd a rhywogaethau.

Trwyddedau cwmpo coed a'r cosbau am dorri coed yn anghyfreithlon

- 2.142 Byddwn yn cynnwys darpariaethau yn y Bil sy'n diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i Weinidogion Cymru gael gosod amodau ar drwyddedau cwmpo ac i allu diwygio, atal neu ddiddymu trwyddedau cwmpo ar ôl eu rhoi. Byddwn yn cynnwys darpariaethau er mwyn i CNC allu codi tâl am drwyddedau cwmpo coed yn y dyfodol pe bai hynny'n gwella'i waith. Nid oes cynlluniau ar droed ar hyn o bryd i gyflwyno tâl o'r fath. Byddwn yn ychwanegu eithriad i'r angen am drwydded cwmpo os bydd coed ynn mewn lleoliad lle gallai'r coed fod yn beryglus pe baent yn wedi eu heintio â chlefyd y coed ynn. Bydd CNC yn ymgynghori ar sut i roi'r pwerau newydd hyn ar waith ac yn cyhoeddi canllawiau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog, fydd yn disgrifio'r amgylchiadau pan y cânt eu defnyddio.
- 2.143 Byddwn yn cynnwys darpariaethau er mwyn i Weinidogion Cymru allu rhoi sancsiynau sifil am dramgwydd yn erbyn trwyddedau cwmpo, gan gynnwys torri coed mewn coetir hynafol yn anghyfreithlon. Byddai hynny'n rhoi dulliau gorfodi ychwanegol ond ni fyddai'n golygu na fyddai angen cymryd camau troseddol yn yr achosion mwyaf difrifol.

Cwestiynau ymgynghori

11 Beth yw'ch barn chi am y diwygiadau a gynigir i'r ddeddfwriaeth goedwigaeth?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

12 Beth yw'ch barn chi ynghylch sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi perchenogion tir yng Nghymru i elwa ar farchnadoedd carbon ar gyfer plannu coed?

Adran 7

Cynigion ar gyfer Pwerau Ychwanegol

Tenantiaethau Amaethyddol

Y Ddadl dros Newid

- 2.144 Mae cyfran arwyddocaol o ffermdir Cymru yn cael ei reoli o dan gyfuniad o gytundebau tenantiaeth tymor byr a hir. O achos hynny, bydd tenantiaid a thir rhent yn ystyriaethau pwysig wrth sicrhau canlyniadau SLM.
- 2.145 Ymgynghoron ni'r llynedd ar gynigion i ddiwygio'r gyfraith tenantiaethau amaethyddol ar sail argymhellion Grŵp y Diwydiant ar Ddiwygio Tenantiaethau (TRIG). Nod y cynigion oedd chwalu'r hyn a deimlwyd oedd yn ein rhwystro rhag gwella cynhyrchiant, galluogi newid strwythurol a chael ymuno â chynlluniau cymorth i ffermwyr yn y dyfodol.
- 2.146 Rydym wedi dadansoddi'r ymatebion ac wedi bwrw ymlaen â'r cynigion y cafwyd cefnogaeth fras iddynt trwy Ddeddf y DU.
- 2.147 Ni wnaethom gymryd pŵer yn Deddf y DU i roi'r hawl i denant droi at drefniant cymrodeddu neu at drydydd parti i benderfynu ar gais ganddo i landlord am ganiatâd i gynnal gweithgaredd sydd wedi'i gwahardd o dan delerau ei gytundeb tenantiaeth neu ar gais i newid telerau'r denantiaeth er mwyn iddo gael manteisio ar gymorth ariannol Llywodraeth Cymru. Mynegwyd llawer o gefnogaeth i'r cynnig hwn yn yr ymgynghoriad a barnwn y byddai'n fwy priodol fynd ag ef yn ei flaen trwy'r Bil.

Ein Cynigion

- 2.148 Rydym am sicrhau pwerau gwneud rheoliadau er mwyn i denant o dan denantiaethau Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Deddf 1986) allu troi at drefniadau datrys anghydfod i benderfynu ar gais i landlord am ganiatâd i gynnal gweithgaredd sydd wedi'i gwahardd o dan delerau ei gytundeb tenantiaeth neu ar gais i newid y telerau i'r tenant gael manteisio ar gymorth ariannol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau na fydd cyfyngiadau afresymol ar denantiaid rhag cael manteisio ar gymorth ariannol oherwydd telerau eu cytundebau tenantiaeth, ond gan sicrhau yr un pryd bod sefyllfa a buddiannau'r landlord yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses.
- 2.149 Mae Deddf 1986 yn gosod y fframwaith i landlordiaid a thenantiaid allu negodi tenantiaethau o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol (AHA). Cafodd y rhan fwyaf o brydlesau AHA eu llunio a'u cydsynio dros 20 mlynedd yn ôl. Mae llawer ohonynt yn cynnwys cymalau safonol sy'n rhwystro'r tenant rhag cynnal gweithgareddau allai newid offer sefydlog y landlord neu newid defnydd tir y

daliad (e.e. arallgyfeirio i gynnal gweithgareddau anamaethyddol fel rheoli tir yn gynaliadwy) heb ganiatâd y landlord yn gyntaf.

- 2.150 Mae llawer o landlordiaid a thenantiaid yn gallu gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i drafod a datrys problemau sy'n codi o'r cymalau cyfyngu heb orfod troi at drefniant datrys anghydfodau. Deallwn nad dyna yw sefyllfa pob tenantiaeth ac y gallai rhai tenantiaid deimlo bod y cymalau a ysgrifennwyd flynyddoedd yn ôl yn amharu'n afresymol ar eu gallu i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gynigir gan gynllun SLM os nad yw'r landlord yn fodlon iddynt gymryd rhan lawn ynddo.
- 2.151 Yn ôl y rheini a ymatebodd i'n hymgyngoriad blaenorol, nid yw tenantiaid o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (Deddf 1995), Tenantiaethau Busnes Fferm (FBT) fel y'u gelwir, yn wynebu'r un cyfyngiadau. Mae'r FBT yn gytundebau masnachol mwy modern, a gafodd eu negodi'n fwy diweddar na thenantiaethau Deddf 1986. Maen nhw hefyd yn cael eu hadolygu'n yn fwy rheolaidd gan roi cyfle i denantiaid aildrafod eu telerau os gwelir bod angen e.e. i gael arallgyfeirio neu i gael ymuno â chynlluniau cymorth ariannol..
- 2.152 Gallai gynlluniau yn y dyfodol gynnwys ymrwymadau tymor hwy, megis creu coetir neu adfer mawnog, fydd yn para ar ôl oes y denantiaeth gyfredol, yn enwedig yn achos FBT. O gofio hynny, carem glywed eich barn ar gwmpas y ddarpariaeth.

Rheoli Tir Comin

Y Ddadl dros Newid

- 2.153 Ceir rhyw 175,000 hectar o dir comin yng Nghymru, 8.5% o arwynebedd y tir amaethyddol ac mae ganddo rôl bwysig o ran cefnogi cynhyrchu amaethyddol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r tir hwn wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965 (Deddf 1965) ac yn eiddo preifat ond gyda phobl eraill yn dal hawliau'r comin (e.e. yr hawl i bori stoc).
- 2.154 Cafodd Deddf Tir Comin 2006 (Deddf 2006) ei chyflwyno i unioni'r anghysonderau a'r diffygion yn Neddf 1965 (gan gynnwys cywiro gwallau a diweddarau a chynnal cofrestrau). Mae amcanion Deddf 2006 yn cynnwys diogelu tir comin rhag ei ddatblygu'n well a hyrwyddo dulliau rheoli cynaliadwy ar dir comin.
- 2.155 Mae Deddf 2006 wedi unioni llawer o ddiffygion Deddf 1965 ond mae nifer o broblemau er hynny wedi'u dwyn at sylw Llywodraeth Cymru. Yn eu plith y mae'r gofyn i gael caniatâd ar gyfer cynnal rhai mathau o waith ar dir comin a'r ffaith bod angen cael caniatâd cynllunio hefyd mewn llawer achos. Gwelir hyn mewn rhai amgylchiadau fel dyblygu gwaith.

- 2.156 Lle bo gwaith wedi'i wneud ar dir comin heb y caniatâd angenrheidiol, mae Deddf 2006 yn rhoi'r hawl i unrhyw berson gymryd camau i orfodi Deddf 2006 trwy'r Llysoedd Sirol ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol cymryd y camau hynny. Mae hyn wedi arwain at beth dryswch a rhwystredigaeth ymhlith y rheini sydd â budd mewn diogelu ansawdd tir comin yng Nghymru.
- 2.157 Un o brif amcanion Deddf 2006 oedd hwyluso rheolaeth well ar dir comin trwy sefydlu Cynghorau Comin. Mynegwyd amheuon ynghylch gallu'r cynghorau hyn i sicrhau gwelliant mawr yn y ffordd y rheolir tiroedd comin gan fod Deddf 2006 yn cyfyngu'u pwerau i amaethyddiaeth, llystyfiant a hawliau yn lle eu caniatáu i ddilyn trywydd ehangach a mwy holistig.

Ein Cynigion

- 2.158 Sicrheir pwerau i adolygu'r drefn ganiatáu ar dir comin er mwyn diffinio'r gwaith y mae angen caniatâd i'w gynnal, eithriadau ac achosion o ddyblygu pan fydd gofyn cael caniatâd cynllunio.
- 2.159 Bydd pwerau newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru adolygu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau gorfodi ar dir comin wrth ymateb i'r rheini sy'n mynd yn erbyn y broses ganiatáu trwy wneud gwaith gwaharddedig heb ganiatâd.
- 2.160 Rhoddir hwb pellach i reoli tir comin yn effeithiol trwy ehangu swyddogaethau a phwerau Cynghorau Comin i reoli tir comin a gwella'u gallu i gyfrannu at amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y polisi fframwaith ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

Ein Cynigion

- 2.161 Rydym yn cynnig rhoi pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru i sefydlu Ardaloedd Rheoli Symudiadau i reoli symudiadau anifeiliaid, semen, embryonau, cynnyrch anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu bethau eraill e.e. offer a chyfarpar, pan geir bygythiad newydd neu achos o glefyd anifeiliaid. Ar hyn o bryd, ni cheir fawr o bwerau os o gwbl i wneud hynny. Bydd yn rhoi'r modd i Weinidogion Cymru ymateb ar fyrder i glefyd newydd all ymddangos yn sydyn a lledaenu'n gyflym ymhlith anifeiliaid a phobl, er mwyn diogelu iechyd anifeiliaid a phobl, ynghyd â'r economi wledig, yng Nghymru.
- 2.162 Rydym yn cynnig rhoi pwerau i Weinidogion Cymru enwi 'anifail', 'anifail a ffermir', 'da byw', 'anifail anwes', ac 'anifeiliaid a fwriedir at ddibenion amaethyddol', y tu hwnt i'r diffiniadau traddodiadol caeth presennol. Bydd y pwerau hyn yn sicrhau y rhoddir mesurau rheoli clefydau anifeiliaid ar waith mewn ffordd briodol a hyblyg mewn perthynas ag unrhyw rywogaeth o anifail cadw lle ceir perygl posibl o glefyd. Byddai hynny'n lleihau unrhyw amwysedd

yn y mesurau rheoli presennol ac yn caniatáu ymateb cywirach a mwy cymesur i berygl iechyd newydd neu sy'n ymddangos. Hefyd, dylai'r pwerau hyn alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno system orfodol ar gyfer tagio anifeiliaid lle nad oes system yn bod eisoes a lle byddai hynny'n addas i allu olrhain anifeiliaid yn effeithiol a diogelu iechyd anifeiliaid a phobl.

- 2.163 Rydym yn cynnig cyflwyno system o sancsiynau sifil am beidio â chadw at fesurau rheoli clefydau anifeiliaid a safonau lles anifeiliaid penodol. Byddai angen system o sancsiynau sifil am beidio â chadw at y mesurau rheoli clefydau anifeiliaid a'r safonau trawsgydymffurfio lles anifeiliaid presennol (a pha beth bynnag a ddaw yn eu lle yn y dyfodol) a mesurau eraill ar gyfer rheoli clefydau ar y fferm i bawb sy'n cadw da byw (fel y'u diffinnir gan y Bil), waeth a fyddant yn cael taliad trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ai peidio. Gellid rhoi sancsiynau sifil am dramgwyddo mesurau rheoli eraill hefyd yn y dyfodol os bernir y byddai'n fwy cymesur delio â thramgwydd trwy sancsiynau sifil yn hytrach na mesurau gorfodi eraill. Cyn penderfynu defnyddio sancsiynau sifil i ddelio â thramgwyddau o'r fath, rhaid cynnal ymgynghoriad ac adolygiad manwl i helpu eu cyflwyno a'u gweithredu. Bydd hyn yn rhan o'n cynnig ynghylch sancsiynau sifil cyffredinol a ddisgrifiwyd yn gynharach.

Rheoleiddio Maglau

Y Ddadi dros Newid

- 2.164 Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd ni *God ar yr Arfer Gorau wrth Ddefnyddio Maglau i Reoli Cadnoid*. Wrth lunio'r Cod, buom yn cydweithio ac rydym yn dal i gydweithio â rhanddeiliaid sydd o blaid parhau i'w defnyddio (grwpiau amaethyddol a helwra) ac â'r rheini a fyddai'n hoffi gweld maglau'n cael eu gwahardd (grwpiau lles anifeiliaid). Mae rheoleiddwyr fel Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Heddlu hefyd wedi'u cynnwys yng nghyfarfodydd y rhanddeiliaid.
- 2.165 Mae'r Cod yn un gwirfoddol a chafodd ei gyhoeddi o dan Adran 14 Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Rydym eisoes wedi dweud os na fydd y trywydd gwirfoddol yn gwella arferion defnyddwyr a safonau lles anifeiliaid, byddem o blaid rheoleiddio gwerthu a defnyddio maglau yng Nghymru. Nid yw'r cyfarfodydd a'r cyfathrebu rheolaidd â grwpiau defnyddio maglau wedi dangos digon o dystiolaeth i ddatgelu a oes yna ddilyn ar y Cod ledled Cymru neu beidio.
- 2.166 Gellid newid y ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer maglau er mwyn tynhau'r rheolau ar eu cynhyrchu, eu gwerthu a'u defnyddio. Daw maglau ar hyn o bryd o dan y cyfreithiau canlynol:
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;
 - Deddf Geirw 1991;
 - Deddf Mamaliaid Gwyllt (Diogelu) 1996;
 - Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

Ein Cynigion

- 2.167 Cafodd deddfwriaeth bywyd gwyllt ei hystyried yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio cyfraith bywyd gwyllt. Barn Comisiwn y Gyfraith yw y gallai fod o fudd yn y dyfodol i gyflwyno rheoliadau ychwanegol ar ddefnyddio ac archwilio maglau.
- 2.168 Dywed argymhelliad 89 y dylai fod yn drosedd defnyddio magl heblaw am fagl cloi, oni bai bod y fagl yn:
- Cael ei harchwilio o leiaf unwaith bob 24 awr pan mewn defnydd ; a'i
 - Bod yn cydymffurfio ac yn cael ei gweithio yn unol ag unrhyw ofynion, os o gwbl, y gallai'r rheoliadau eu pennu.
- 2.169 Rydym yn cynnig diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i roi pŵer bras i Weinidogion Cymru i reoleiddio maglau. Byddai hynny'n caniatáu i Weinidogion Cymru greu system adnabod a thrwyddedu os byddant yn dymuno hynny. Byddai'n caniatáu iddynt hefyd bennu materion fel beth fyddai prwpas cyfreithlon gosod trap o'r fath e.e. rheolaeth angenrheidiol ar blâu.

Arferion Busnes Amaethyddol Cynaliadwy

Y Ddadl dros Newid

- 2.170 Mae pandemig Covid-19 wedi tanlinellu'r problemau sy'n parhau ynghylch y cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau a thegwch yn y gadwyn cyflenwi bwyd amaeth, yn enwedig gallu cynhyrchwyr cynradd i ymateb i anwadalwch y farchnad a siociau eraill all effeithio ar effeithiolrwydd y gadwyn.
- 2.171 Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r hwb yn sgil hynny yn y gystadleuaeth o du marchnadoedd y byd yn dwysau'r angen am arferion busnes cynaliadwy yn y gadwyn cyflenwi bwyd amaeth. Mae'r gwendid hwn i'w weld hefyd yng ngallu'r sector i ymateb i'r argyfwng hinsawdd.
- 2.172 Yn dilyn cyhoeddi'r Cod Gwirfoddol yn 2012 a'r cyd-ymgyngoriad diweddar gyda Defra ar contractau yn y sector godro, rydym wrthi'n ystyried cyflwyno mecanweithiau i unioni'r diffygion hyn er mwyn cefnogi busnesau fferm cynhyrchol ac amrywiol.

Ein Cynigion

- 2.173 Byddai'r ddarpariaeth hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sicrhau bod ffermwyr yng Nghymru ac eraill yn y gadwyn gyflenwi amaethyddol a bwyd yng Nghymru yn cael gweithio mewn ffordd effeithiol, tryloyw a theg.
- 2.174 Byddai'r ddarpariaeth hefyd yn helpu i gryfhau busnesau amaethyddol sy'n agored i anwadalwch prisiau, a gwella busnesau a chynhyrchiant

amaethyddol cynaliadwy yn unol â'r fframwaith polisi ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Yr Isafswm Cyflog Amaethyddol

Y Ddadl dros Newid

- 2.175 Cafodd Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru ei sefydlu gan Weinidogion Cymru trwy Orchymyn Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016, yn unol â gofynion Adran 2 Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.
- 2.176 Mae'r Ddeddf yn ddarn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd cyfraniad amaethyddiaeth i'n heconomi, amgylchedd a chymunedau gwledig. Mae'n cefnogi datblygu'r sector yn gynaliadwy trwy gydnabod natur unigryw swyddi amaethyddol a manteision cynyddu proffesiynoldeb y diwydiant.
- 2.177 Mae'r Panel yn gorff annibynnol sy'n cyngori Gweinidogion Cymru a'i nod yw sicrhau bod gweithwyr amaethyddol yn cael cyflog teg a bod eu hamodau a thelerau gwaith yn cael eu diogelu. Y Panel sy'n gyfrifol am ddrafftio Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo ynghyd â hyrwyddo gyrfaedd yn y sector a datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau priodol.
- 2.178 Yn dilyn adolygiad o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i'w gwella lle gallai. Ymrwymodd y Panel hefyd i adolygu'r ffordd y mae'n drafftio Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol a nodi sut y gallai wella'i ffyrdd o weithio yn y dyfodol.
- 2.179 Nid yw Deddf Sector Amaethyddol Cymru 2014 yn caniatáu i Weinidogion roi cyfeiriad strategol i'r Panel.

Ein Cynigion

- 2.180 Ein bwriad yw deddfu er mwyn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru ddatblygu partneriaeth strategol â'r Panel ac i ddatblygu Gorchmynion cyflogau amaethyddol. Byddwn yn rhannu sgiliau a phrofiad mewn ffordd fwy ystwyth.
- 2.181 Sicrheir pwerau er mwyn i Weinidogion Cymru allu gwella gweithdrefnau'r Panel heb golli'r cydbwysedd rhwng annibyniaeth ac atebolrwydd.

Cwestiynau ymgynghori

- 13 A ydych chi'n credu y dylai'r trefniadau datrys anghydfodau a ddisgrifir yn y cynigion gael eu hestyn i Tenantiaethau Busnes Fferm (FBTs)?

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. i ba raddau y mae hon yn broblem ar hyn o bryd, y manteision a'r effeithiau tebygol.

- 14 A ydych chi'n credu y bydd yna adegau pan fyddai'r landlord angen ddefnyddio yr un trefniadau datrys anghydfodau a ddisgrifir uchod hefyd?

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. i ba raddau y mae hon yn broblem ar hyn o bryd, y manteision a'r effeithiau tebygol.

- 15 Yn eich barn chi, a fyddai'n briodol caniatáu cytundebau SLM ar y cyd rhwng landlordiaid/tenantiaid?

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. maint yr angen, y manteision a'r effeithiau tebygol.

- 16 Beth yw'ch barn am y cynigion i roi pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru i:

- a) Sefydlu Ardaloedd Rheoli Symudiadau i reoli symudiadau anifeiliaid, semen, embryonau, cynnyrch anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu bethau eraill e.e. offer a chyfarpar, pan geir bygythiad o glefyd anifeiliaid arwyddocaol newydd lle na cheir fawr o bwerau os o gwbl i wneud hynny ar hyn o bryd?
- b) Enwi 'anifail', 'anifail a ffermir', 'da byw', 'anifail anwes', ac 'anifeiliaid a fwriedir at ddibenion amaethyddol', y tu hwnt i'r diffiniadau traddodiadol caeth presennol i sicrhau y rhoddir mesurau rheoli clefydau anifeiliaid ar waith mewn ffordd briodol a hyblyg mewn perthynas ag unrhyw rywogaeth o anifail cadw lle ceir perygl posibl o glefyd?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

- 17 Beth yw'ch barn am y cynnig i ddarparu pŵer er mwyn cael mwy o reolaeth ar faterion fel cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau? A oes angen pŵer o'r fath? Os nad oes, pam? Os oes, pa faterion yn eich barn chi y dylai'r pŵer fynd i'r afael â nhw?

Pennod 3. Ein Cynigion: Rhan Dau

Adran 1

Ein cynigion i ddisodli pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth y DU

- 3.1 Rydym wedi cymryd pwerau i Weinidogion Cymru trwy Ddeddf y DU a gyflwynwyd i Senedd y DU ar 16 Ionawr 2020 ac a ddaeth yn gyfraith ar 11 Tachwedd 2020. Ceir cyfyngiad amser ar bwerau Gweinidogion Cymru a restrir yn Atodlen 5 y Ddeddf (ac mewn nifer fach o ddarpariaethau cysylltiedig). Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gadw'r cymorth presennol i ffermwyr tu hwnt i 2020 a sicrhau bod y sector amaethyddol a marchnadoedd amaethyddol yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.
- 3.2 Yn ein hymgyngghoriadau, *Brexit a'n Tir a Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, gwnaethom ddisgrifio'n huchelgais i gyflwyno Bil ger bron y Senedd. Y Bil fydd yn rhoi'r sail ddeddfwriaethol i bolisi amaeth a thir Cymru yn y tymor hir ac yn disodli'r pwerau a roddir trwy Ddeddf y DU.
- 3.3 Yn ystod taith Deddf y DU trwy'r Senedd, gwnaethom wrando'n ofalus ar bryderon y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn eu hadroddiadau. Fel ymateb i hynny, gwnaethom nifer o newidiadau i'n bwriadau, yn fwyaf penodol, gwnaethom:
- Ddileu'r darpariaethau hynny a fyddai wedi caniatáu i ni newid i systemau cymorth amaethyddol newydd gan ei gwneud yn glir y byddai hynny ond yn digwydd trwy Fil Amaethyddiaeth (Cymru);
 - Ychwanegu amod 'machlud', gan wneud darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer ymrwymiad Gweinidogion Cymru i ddod â'r darpariaethau ynghylch Cymru yn Atodlen 5 (a nifer o ddarpariaethau cysylltiedig) i ben ar 31 Rhagfyr 2024;
 - Cyhoeddi dau ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer cymorth ffermio yn y dyfodol a chyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar gadw a newid y fframwaith deddfwriaethol sy'n effeithio ar y BPS a'r fframwaith deddfwriaethol domestig ar Gymorth Gwledig o 2021.
- 3.4 Mae'r Bennod hon yn disgrifio'r cynigion i ddisodli rhai pwerau yn Neddf y DU sy'n ymwneud â Chymru ac i wneud darpariaeth briodol ar eu cyfer yn y Bil. Rydym wedi ac wrthi'n ystyried yn ofalus hyd a lled y pwerau hyn yn Neddf y DU, a fydd eu hangen o hyd ac a oes angen eu newid neu eu gwella. Bydd angen datblygu ac asesu'r cynigion hyn yn fanwl eto a bydd angen iddynt fod yn gyson â chymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru fel y diffinnir hwnnw

yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn amodol ar y gwaith hwnnw, rydym am wneud darpariaeth briodol yn y Bil i ddisodli rhai darpariaethau yn Neddf y DU, gan gynnwys:

- Pwerau a roddir i Weinidogion Cymru trwy Ddeddf y DU ac a ddaw i ben ('machlud') ar 31 Rhagfyr 2024;
- Rhai pwerau sy'n ymwneud â Chymru trwy Ddeddf y DU na fyddant yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

Adran 2

Pwerau ‘Machlud’

Crynodeb

- 3.5 Mae'r Adran hon yn amlinellu'n cynigion mewn perthynas â'r pwerau a sicrhawyd ar gyfer Gweinidogion Cymru o dan Atodlen 5 o Ddeddf y DU ac a ddaw i ben ('machlud') ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'n disgrifio'n cynigion i gymryd pwerau cyfatebol neu debyg, yn gyfan neu'n rhannol, yn y Bil. Rydym am wneud hyn gan y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar ôl i Ddeddf y DU ddod i ben. Ceir crynodeb isod o'n cynigion cychwynnol.

Ein Cynigion

Pwerau i gadw'r cymorth amaethyddol presennol

- 3.6 Rydym yn cynnig cymryd pŵer a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru newid neu ddiddymu cyfraith yr UE a gedwir sy'n ymwneud â'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) a Datblygu Gwledig, trwy gyfrwng rheoliadau. Bydd y pwerau hyn yn rhoi'r gallu i gadw a chau'r cymorth amaethyddol presennol tan ein bod yn barod i newid i'r cynllun newydd. Bydd y pŵer hwn yn caniatáu diwygio'r canlynol:
- Cyfraith yr UE a gedwir sy'n ymwneud â'r BPS ac is-ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Deddf y DU yn nodi pum pwrpas pam y gallai'r ddeddfwriaeth hon gael ei newid ac mae'n rhoi pwerau i ddod â'r taliadau gwyrddu i ben. Rydym yn cynnig cymryd pŵer tebyg yma ond heb y cymal machlud;
 - Cyfraith yr UE a gedwir sy'n ymwneud â chyllido, rheoli a monitro'r Polisi Amaethyddol Cyffredinol a'r is-ddeddfwriaeth berthnasol (y Rheoliadau Llorweddol fel y'u gelwir) sy'n sefydlu'r mesurau ar gyfer rheoli'r cynlluniau presennol; a
 - Cyfraith yr UE a gedwir sy'n ymwneud â chefnogi datblygu gwledig ac is-ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y diwydiant ehangach a'r gadwyn cyflenwi bwyd.

Pwerau i ddatgan bod amodau'r farchnad yn eithriadol ac ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol

Amodau Eithriadol yn y Farchnad

- 3.7 Rydym yn cynnig bod Gweinidogion Cymru'n cael datgan pan fydd amodau'r farchnad yn eithriadol a fyddai'n caniatáu iddynt allu dechrau ymyrryd yn y farchnad. Mae amodau eithriadol yn y farchnad yn ôl Deddf y DU yn golygu aflonyddwch difrifol yn y farchnad neu fygythiad o aflonyddwch difrifol yn y farchnad, a fyddai'n debygol o gael effaith andwyol ddifrifol ar y pris a geir am gynnyrch amaethyddol.
- 3.8 O gael y pŵer i ddatgan bod amodau'r farchnad yn eithriadol, bydd Gweinidogion yn gallu cymryd y cam cyntaf i lansio cynlluniau cymorth ariannol mewn sefyllfaoedd pan fydd cynhyrchwyr amaethyddol o dan bwysau mawr. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru helpu i gryfhau sefyllfa ariannol sectorau amaethyddol mewn cyfnodau o gythrwfl. Gan y byddai datgan bod amodau'r farchnad yn eithriadol yn ymateb i argyfwng, nid oes gwybod pryd y byddai angen y pwerau hyn. Fel rhan o ddatganiad, byddai Gweinidogion yn disgrifio natur yr aflonyddwch yn y farchnad a pha gynnyrch y byddai'n effeithio arno neu'n debygol o effeithio arno.

Ymyriad Cyhoeddus a Chymorth Storio Preifat

- 3.9 Rydym am gadw'r opsiwn i Weinidogion Cymru allu cynnig Cymorth Storio Preifat ac Ymyriad Cyhoeddus i gefnogi cynhyrchwyr amaethyddol. Câi hyn ei wneud trwy newid deddfwriaeth yr UE a gedwir sy'n ymwneud ag Ymyriad Cyhoeddus a Chymorth Storio Preifat. Y pŵer i allu gwneud newid o'r fath yw'r hyn a gynigir yn y fan hon. Byddai'n golygu na fyddai'n rhaid i ffermwyr werthu'u cynnyrch am golled mawr a byddai'n osgoi gwastraffu bwyd. Mae ymyriad cyhoeddus yn ffurf benodol ar ymyriad gan y Llywodraeth lle byddai'n prynu cynnyrch amaethyddol yn uniongyrchol oddi wrth y cynhyrchydd, yn eu storio ac yna'n eu gwerthu nes ymlaen. Mekanwaith yw'r Cymorth Storio Preifat lle byddai Llywodraeth Cymru'n talu'r gost, ar gyfradd benodol, am storio cynnyrch amaethyddol mewn storfa breifat. Bydd y cymorth hwn yn para am gyfnod penodol ac ar ei ddiwedd, daw'r cymorth ariannol ar gyfer storio i ben. Y cynhyrchwyr fydd yn berchen ar y cynnyrch gydol y broses.

Safonau Marchnata a Chategoreiddio Carcasau

- 3.10 Rydym yn cynnig cymryd pwerau sy'n ymwneud â safonau rhai cynhyrchion sy'n cael eu marchnata yng Nghymru. Byddant yn caniatáu hefyd i ladd-dai yng Nghymru allu categoreiddio carcasau.

Safonau Marchnata

- 3.11 Byddai'r cynnig hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru dros safonau marchnata cynnyrch amaethyddol. Bydd yn rhoi pwerau iddynt dros, ymhlith eraill, diffiniadau technegol, meini prawf categoreiddio, labelu, golwg, cydrannau cynnyrch, dull ffermio, cadw a thrin, gwaredu a defnyddio termau sy'n cyfleu nodweddion sy'n ychwanegu at werth. Drwyddo, byddai gan Weinidogion Cymru'r pŵer i osod safonau ar gyfer amrywiaeth o gynnyrch a'r modd i gynnal y safonau uchel y mae Cymru'n adnabyddus amdanynt.
- 3.12 Byddai'r eitemau a ddaw o dan y ddarpariaeth hon yn ymdrin yn bennaf â llaeth a chynnyrch llaeth, brasterau taenadwy, cig eidion, cig llo, dofednod a chig dofednod, wyau a chynnyrch wyau, ffrwythau a llysiau, olew'r olewydd ac olifau bwyta, hopys, gwin a gwin wedi'i bersawru.

Categoreiddio Carcasau

- 3.13 Byddai hyn yn caniatáu i Weinidogion newid y trefniadau ar gyfer categoreiddio carcasau gwartheg a moch os a phan y bydd angen eu newid oherwydd gwelliannau technolegol neu yn y ffyrdd y gwneir busnes. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau ar gyfer categoreiddio carcasau defaid hefyd, gan wneud gwerthiant cig defaid yn fwy effeithiol. Mae categoreiddio carcasau gwartheg a moch wedi bod yn rhan o reoliadau amaethyddol yr UE ers degawdau ac yn y blynyddoedd diwethaf, mae deddfwriaeth wedi'i phasio er mwyn gallu categoreiddio carcasau defaid yn yr un modd.

Adran 3

Pwerau heb ddyddiad dod i ben

Crynodeb

- 3.14 Ceir rhai pwerau sy'n ymwneud â Chymru yn Neddf y DU na fyddant yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024 a gallent barhau mewn grym yng Nghymru wedi'r dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn glir o'r dechrau mai'n bwriad yw deddfu trwy Senedd Cymru ar unrhyw fater y mae gan Senedd Cymru gymhwysedd deddfwriaethol amdano. Felly, lle medrir, byddai'n well gennym ni weld darpariaeth briodol yn cael ei gwneud yn y Bil mewn perthynas â'r darpariaethau hynny yn Neddf y DU (a) sy'n ymwneud â Chymru; (b) y bydd dal eu hangen ar ôl 31 Rhagfyr 2024 ac (c) nad ydynt yn destun cymal machlud. Wrth wneud, gallwn ystyried lle mae angen newid neu welliant gan wneud y darpariaethau deddfwriaethol priodol.
- 3.15 Amlinellir ein cynigion cychwynnol isod a byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach i weld a fydd modd gwneud darpariaeth deddfwriaethol ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru).

Gwrtaith

- 3.16 Bwriedir i'r darpariaethau yn Neddf y DU ddiwygio ac ehangu cwmpas y pwerau presennol o dan adran 74(A) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 i wneud rheoliadau er lles y cyhoedd i reoleiddio cyfansoddiad neu gynnwys gwrtaith a deunydd a fwriedir ar gyfer ei fwydo i anifeiliaid. Mae'r darpariaethau ar hyn o bryd yn gymwys i'r DU gyfan ac yn cynnwys pwerau i reoli sut mae gwrtaith yn cael ei fewnforio, ei allforio, ei werthu a'i ddefnyddio ac i reoleiddio sut mae gwrtaith yn cael ei farchnata, ei labelu a'i becynnu.

Ein Cynigion

- 3.17 Diben ein cynigion polisi yw sicrhau nad oes toriad yn y cyflenwad gwrtaith trwy:
- Ailddiffinio gwrtaith (yn ôl swyddogaeth a chynnwys);
 - Rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru allu rheoleiddio gwrtaith;
 - Cau bwlch posibl yn y rheoliadau ar ôl Brexit;
 - Sicrhau bod dal modd cael gwrtaith â labeli'r CE/EC ar ôl Brexit;
 - Sicrhau bod cyflenwadau digonol o wrtaith o farchnadoedd y DU a'r UE.

- 3.18 Bydd y cynigion polisi hyn yn sicrhau bod Cymru'n cadw i fyny â datblygiadau yng ngofynion yr UE ynghylch gwrtaith ac yn sicrhau bod gwrtaith a gynhyrchir at safonau'r UE ar gael o hyd o farchnadoedd yr UE a'r DU. O beidio â gwneud, bydd perygl y byddai prinder gwrtaith yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu.

Adnabod ac Orlhain Anifeiliaid

- 3.19 Mae Deddf y DU yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso Rheoliadau presennol yr UE (Rheoliadau (CE) rhif 1760/2000) sy'n ymwneud ag adnabod a chofrestru gwartheg. Mae deddfwriaeth yr UE yn effeithio ar faterion fel adrodd ar symud a chyn symud anifeiliaid. Mae Deddf y DU yn rhoi pwerau i Gymru ddatgymhwyso hefyd Rheoliadau'r UE ar adnabod a chofrestru geifr a defaid (Rheoliad (CE) rhif 21/2004).
- 3.20 Pe bai'r pŵer i ddatgymhwyso darpariaethau yn neddfwriaeth yr UE a enwir uchod yn cael ei ddefnyddio, y bwriad yw dibynnu ar bwerau o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 i gyflwyno pwerau newydd i sicrhau cysondeb â Llywodraethau'r DU a'r Alban ac i roi'r un gefnogaeth i geidwaid o Gymru i symleiddio a moderneiddio arferion busnes.
- 3.21 Trwy gyflwyno'r pwerau newydd hyn trwy'r Bil arfaethedig, bydd modd cynnal y safonau uchaf posibl ar gyfer adnabod ac olrhain anifeiliaid yng Nghymru i ddiogelu iechyd pobl a hyrwyddo masnach. Yn ogystal â rhoi data amser real inni am dda byw, sy'n hanfodol ar gyfer atal a rheoli clefydau, bydd rhoi tagiau electronig a chofnodi symudiadau yn caniatáu masnach difwlch o fewn y DU ac yn ein halinio â safonau'r UE ar gyfer masnachu fel trydedd wlad.

Ein Cynigion

- 3.22 Rydym yn cynnig y canlynol:
- Y pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso Rheoliad (CE) 1760/2000 ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu. Bydd hyn yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru newid y cyfnod rhoi gwybod am symudiadau gwartheg, deddfu ynghylch rhoi gwybod am symudiadau da byw cyn eu symud, caniatáu cofrestru buchesi ar-lein a chofnodi manylion trafndiaeth i allu olrhain yn well;
 - Y pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso Rheoliad (CE) 21/2004 ar gyfer adnabod ac olrhain defaid a geifr ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu. Bydd hyn yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru roi'r gorau ar adroddiadau papur fel dull o gofnodi symudiadau anifeiliaid a chyflwyno tagio a chofnodion symud electronig ar gyfer holl dda byw Cymru.

Cynnyrch Organig

- 3.23 Mae Deddf y DU yn rhoi pwerau i wneud darpariaethau trwy reoliadau mewn perthynas â chynnyrch organig, gan gynnwys ardystio cynnyrch organig a mesurau rheoli mewnforion ac allforion.
- 3.24 Mae Deddf y DU yn rhoi'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru cyn belled â bod y ddarpariaeth honno a wneir trwy'r rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru (gan anwybyddu unrhyw ofyn am ganiatâd unrhyw berson). Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pwerau hyn hefyd ond dim ond gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'u gwneud.

Ein Cynigion

- 3.25 Mae cynhyrchu organig yn faes datganoledig felly byddai'n ddymunol pe bai deddfwriaeth yn y maes yn cael ei gwneud yng Nghymru. Rydym felly'n cynnig cynnwys pwerau sylfaenol i Weinidogion Cymru, neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru, i greu a diwygio rheoliadau ar gynhyrchu organig yng Nghymru. Trwy roi'r gallu iddynt bennu safonau cynnyrch organig, bydd y Gweinidogion yn cynnal hyder y cwsmer yn y drefn ardystio organig yn ogystal â gwarantu manteision amgylcheddol dulliau cynhyrchu organig.

Pennod 4. Casgliad

- 4.1 Mae'r Papur Gwyn yn disgrifio rhaglen uchelgeisiol ar gyfer newid y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r diwydiant bwyd amaeth wrth inni ymadael â'r UE. Mae'n braenaru'r ffordd ar gyfer cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn Senedd nesaf Cymru a fydd yn penderfynu ar gyfeiriad ffermio yng Nghymru am y 15 i 20 mlynedd nesaf.
- 4.2 Wrth ddiwygio'r rheoliadau, ein nod yw gwneud pethau'n fwy eglur i ffermwyr a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â chyflwyno trefniadau gorfodi mwy cymesur ar gyfer ffermwyr sy'n mynd yn groes i'r rheoliadau.
- 4.3 Bydd ein cynigion ar gyfer cynllun newydd i gymryd lle'r cynllun cymorth uniongyrchol presennol i ffermwyr yn cyflawni egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, er mwyn i genhedlaeth heddiw ac yfory o ffermwyr allu parhau i gynhyrchu bwyd a sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol ehangach a chael eu gwobrwyo am wneud hynny. Rydym am annog arloesedd mewn ffermio a byddwn yn cydweithio ag ymarferwyr, academia a rhanddeiliaid i fynd â hyn yn ei flaen.
- 4.4 Bydd ein cynigion ar gyfer casglu a rheoli data'n well yn ategu'r diwygiadau rheoleiddio. Ein huchelgais yw datblygu ffordd o reoleiddio a monitro cynlluniau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda data'n gefn iddi. Y nod fydd lleihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr a chynnal archwiliadau effeithiol, wedi'u targedu pan fydd eu hangen.
- 4.5 Mae hwn yn gyfnod o ansicrwydd i lawer o fusnesau ffermio. Rydym yn cydnabod hefyd bod yn rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r problemau sy'n achosi'r ansicrwydd hwnnw. Mae'r Papur Gwyn hwn yn ffrwyth dwy flynedd o ymgysylltu ac o ymgynghori ar y materion hyn, ond nid hwn fydd y gair olaf. Ein bwriad yw rhoi'r Bil gerbron y Senedd nesaf tuag at ddiwedd blwyddyn gynta'r tymor hwnnw, gydag is-ddeddfwriaeth i ddilyn. O gofio'r cymal machlud sy'n rhan o lawer o'r pwerau y mae Deddf y DU yn eu rhoi i Weinidogion Cymru, byddwn yn gweithio'n galed gyda rhanddeiliaid i gwblhau'r gwaith datblygu polisi fydd yn gefn i'r Bil cyn gynted byth ag y medrwn.
- 4.6 Hoffwn glywed eich barn am y cynigion hyn. Cwmni allanol annibynnol fydd yn dadansoddi'ch ymatebion. Fel bob tro, byddwn yn ystyried eich ymatebion wrth roi'n cynigion manwl ar gyfer deddfwriaeth gerbron.

Cwestiynau ymgynghori

Diwygio Rheoliadau

- 1 Beth yw'ch barn chi am:
 - (a) Y ffordd rydym am fynd ati i greu Safonau Gofynnol Cenedlaethol?
 - (b) Yr angen am hyblygrwydd i allu diwygio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol pan fo angen? A oes angen ystyried unrhyw beth arall?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

- 2 Beth yw'ch barn chi ynghylch:
 - (a) Sut gall cyngor ac arweiniad helpu ffermwyr i ddeall y Safonau Gofynnol Cenedlaethol; ac
 - (b) Yr ystyriaethau eraill wrth roi cyngor ac arweiniad? Er enghraifft, ffurf yr arweiniad, pwy ddylai ei ddarparu, hyd a lled yr arweiniad a sut gallai gwasanaethau cynghori helpu ffermwyr.

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r ystyriaethau hyn

- 3 Beth yw'ch barn am y cynigion ynghylch sancsiynau sifil er mwyn gallu gorfodi'r rheoliadau mewn ffordd gymesur? A oes ystyriaethau eraill sydd eu hangen?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r ystyriaethau hyn.

Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) – Cymorth yn y Dyfodol

- 4 Beth yw'ch barn am y dibenion a gynigir ar gyfer talu ffermwyr i SLM? A oes dibenion eraill yn eich barn chi sydd angen eu hystyried?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Y Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi

- 5 Beth yw'ch barn chi am y blaenoriaethau a gynigir ar gyfer cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Casglu a rhannu data

- 6 Beth yw'ch barn chi am y dibenion a gynigir ar gyfer casglu, rhannu a chysylltu data?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

- 7 Beth yw'ch barn chi am sefydlu cronfa ddata genedlaethol ar gyfer ffermydd a da byw?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Gan feddwl am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC):

- 8 O ran y cynllun arfaethedig, beth yw'ch barn chi am y cynigion i ganiatáu i ffermwyr ddefnyddio'r data rydym yn eu casglu ar y fferm i dracio'u cynnydd a dangos eu bod yn gynaliadwy?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Gan feddwl am gydymffurfio â'r rheoliadau:

- 9 Beth yw'ch barn am y cynigion ar gyfer monitro'n well y modd y cydymffurfir â'r rheoliadau?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

- 10 Beth yn eich barn chi sydd angen ei ystyried yn y dyfodol er mwyn i reoleiddwyr allu monitro rheoliadau'n effeithiol?

Coedwigaeth a choetir

- 11 Beth yw'ch barn chi am y diwygiadau a gynigir i'r ddeddfwriaeth goedwigaeth?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

- 12 Beth yw'ch barn chi ynghylch sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi perchenogion tir yng Nghymru i elwa ar farchnadoedd carbon ar gyfer plannu coed?

Tenantiaethau

- 13 A ydych chi'n credu y dylai'r trefniadau datrys anghydfodau a ddisgrifir yn y cynigion gael eu hestyn i'r FBTs?

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. i ba raddau y mae hon yn broblem ar hyn o bryd, y manteision a'r effeithiau tebygol.

- 14 A ydych chi'n credu y bydd yna adegau pan fyddai'r landlord angen ddefnyddio yr un trefniadau datrys anghydfodau a ddisgrifir uchod hefyd?

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. i ba raddau y mae hon yn broblem ar hyn o bryd, y manteision a'r effeithiau tebygol.

- 15 Yn eich barn chi, a fyddai'n briodol caniatáu cytundebau SLM ar y cyd rhwng landlordiaid/tenantiaid?

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. maint yr angen, y manteision a'r effeithiau tebygol.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

- 16 Beth yw'ch barn am y cynigion i roi pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru i:

- a) Sefydlu Ardaloedd Rheoli Symudiadau i reoli symudiadau anifeiliaid, semen, embryonau, cynnyrch anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu bethau eraill e.e. offer a chyfarpar, pan geir bygythiad o glefyd anifeiliaid arwyddocaol newydd lle na cheir fawr o bwerau os o gwbl i wneud hynny ar hyn o bryd?
- b) Enwi 'anifail', 'anifail a ffermir', 'da byw', 'anifail anwes', ac 'anifeiliaid a fwriedir at ddibenion amaethyddol', y tu hwnt i'r diffiniadau traddodiadol caeth presennol i sicrhau y rhoddir mesurau rheoli clefydau anifeiliaid ar waith mewn ffordd briodol a hyblyg mewn perthynas ag unrhyw rywogaeth o anifail cadw lle ceir perygl posibl o glefyd?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Maglau

- 17 Beth yw'ch barn am y cynnig i ddarparu pŵer er mwyn cael mwy o reolaeth ar faterion fel cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau? A oes angen pŵer o'r fath? Os nad oes, pam? Os oes, pa faterion yn eich barn chi y dylai'r pŵer fynd i'r afael â nhw?

Asesiad Integredig o Effeithiau

- 18 Beth yw'ch barn chi am yr effeithiau rydym wedi'u nodi yn yr asesiad integredig o'r effeithiau? A oes angen ystyried effeithiau eraill?

Y Gymraeg

- 19 Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cynigion y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

- 20 Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Unrhyw sylwadau eraill

- 21 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny: